



Adroddiad Adolygiad o Ddynladdiad Domestig:  
Oedolyn A

Tony Blockley  
Cyfarwyddwr: Johnston and Blockley Ltd

Dyddiad: 14 Medi 2015

	<b>Pwnc</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1</b>	<b>Rhagarweiniad</b>	3 - 13
	Rhagair	3
	Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig	4
	Cwmpas yr Adolygiad	5
	Cylch Gorchwyl	5
	Methodoleg	8
	Ymwneud gan y teulu	12
<b>2</b>	<b>Y ffeithiau</b>	14 - 16
	Cefndir Oedolyn A (Dioddefwr) ac Oedolyn B (Cyflawnwr)	
	Gwybodaeth am y Dioddefwr	15
	Gwybodaeth am y Cyflawnwr	16
<b>3</b>	<b>Cronoleg</b>	17 - 20
	Cronoleg y digwyddiadau hysbys	17
	Gwybodaeth arall	18 - 20
	• Digwyddiad 1	
	• Digwyddiad 2	
	• Digwyddiad 3	
	• Digwyddiad 4	
	• Digwyddiad 5	
	• Digwyddiadau blaenorol rhwng Oedolyn B ac Oedolyn C	
<b>4</b>	<b>Dadansoddiad o ymwneud</b>	21 – 28
	• Heddlu Gwent	21
	• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	22
	• Gwasanaethau Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd	25
<b>5</b>	<b>Mynd i'r afael â'r cylch gorchwyl</b>	28
<b>6</b>	<b>Gwersi i'w dysgu o'r adolygiad</b>	33
<b>7</b>	<b>Casgliadau</b>	34
<b>8</b>	<b>Argymhellion</b>	35

## 1. Rhagair

- 1.1 A hithau'n un o ddinasoedd mwyaf newydd Cymru, Casnewydd yw'r porth rhwng Cymru a Lloegr a'r sbardun economaidd ar gyfer rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Mae ardal ddaearyddol Casnewydd yn cwmpasu 217.7km<sup>2</sup>, tua 1% o gyfanswm arwynebedd Cymru, sef 21,225 km<sup>2</sup>.
- 1.2 Casnewydd yw'r ddinas drydedd fwyaf yng Nghymru. Poblogaeth bresennol Casnewydd yw 146,558, yn ôl Amcan Canol-blwyddyn diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o'r Boblogaeth, ar gyfer 2013, sef tua 4.75% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Yn ôl Cyfrifiad 2011 yr ONS, nifer aelwydydd Casnewydd oedd 63,445, tua 5% o gyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru. Mae'r amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yng Nghasnewydd yn 2014, yn seiliedig ar ddadansoddiad o gofnodion lleol y Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol, oddeutu 67,000.
- 1.3 Mae Casnewydd yn cynnwys 20 Ward, 14 Cyngor Cymuned a 95 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae dwy etholaeth seneddol yng Nghasnewydd, sef Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd, ill dwy yn dychwelyd un Aelod Seneddol yr un.
- 1.4 Erbyn hyn, mae proffil cam-drin domestig yn uwch o lawer ar yr agenda polisi yn genedlaethol, trwy gyhoeddi Strategaeth Cam-drin Domestig Llywodraeth Cymru, ac yn lleol trwy ddatblygu polisiâu ar gam-drin domestig, seiliedig ar waith. Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un sy'n gyfrifol am y gwaith llywodraethu strategol ynghylch cam-drin domestig a materion yn gysylltiedig â'r agenda cenedlaethol yng Nghasnewydd; y Bwrdd hwn sy'n gweithredu'n bartneriaeth diogelwch cymunedol statudol ar gyfer Casnewydd. Cyngor Dinas Casnewydd sy'n arwain Prosiect Braenaru Cam-drin Domestig Gwent, a noddir gan Lywodraeth Cymru.
- 1.5 Caiff gwasanaethau cam-drin domestig ar gyfer Casnewydd eu cydlynu o'r Uned Amlasiantaeth yn yr Orsaf Wybodaeth yng nghanol dinas Casnewydd. Yn yr uned hon, mae sefydliadau fel Llamau, BAWSO a Chymorth i Ddiodefwyr wedi'u lleoli i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig, di-dor. Mae Gwasanaeth Eirioli Annibynnol Cyngor Dinas Casnewydd o ran Trais Domestig wedi'i leoli yno hefyd. Caiff achosion eu hatgyfeirio iddo drwy'r Gynhadledd Achos ar Gam-drin Domestig, gydag achosion uchel eu risg yn cael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Eirioli Annibynnol trwy Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). Hefyd, mae rhywfaint o allu i ddarparu gwasanaeth galw heibio, cysylltiadau â darpariaeth cwnsela a chyfleusterau hyfforddi.
- 1.6 Mae Casnewydd yn gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau bob blwyddyn ac mae'n disgwyl i'r duedd hon barhau. Mae'r data'n dangos y bu cynnydd blynyddol yn nifer yr achosion o Gam-drin Domestig a gofnodwyd, o 2,643 yn 2011/12 i 3,064 yn 2012/13 (16%). Bu cynnydd diweddar yn y Cam-drin Domestig a gofnodwyd, er gwaethaf gostyngiad blynyddol blaenorol. Mae nifer y troseddau trais domestig wedi codi o 630 yn 2011/12 i 796 yn 2012/13 (26%).
- 1.7 Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un sy'n arwain proses yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig yn unol ag arweiniad y Swyddfa Gartref.

## 1.8 Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig

- 1.9 Am 11.13am fore Llun, 5 Mai 2014, cysylltodd Oedolyn B â Heddlu Gwent drwy'r system 999 a rhoi gwybod i gysylltydd yr Heddlu ei fod wedi llofruddio'i gariad, Oedolyn A, trwy ei thagu a'i thrywanu.
- 1.10 Dywedodd hefyd eu bod wedi cael dadl ddibwynt y noson gynt, ei bod hi wedi cloi ei hun yn yr ystafell ymolchi a bod pethau wedi mynd yn draed moch.
- 1.11 Aeth heddweision o Heddlu Gwent i gyfeiriad Oedolyn B a darganfod Oedolyn A yn yr ystafell ymolchi; roedd hi'n farw. Roedd Oedolyn A wedi gwisgo amdani, ac yn gwisgo côt hefyd. Roedd ganddi ei bag llaw a "*kit bag*" dros eu hysgwyddau. Roedd yr heddweision a aeth yno wedi ffurfio'r farn ei bod ar fin gadael y cyfeiriad. Roedd hi wedi cael ei gorchuddio â duvet hefyd.
- 1.12 Canfu archwiliad post mortem fod Oedolyn A wedi marw o gyfuniad o dagu a chlwyfau'r 27 trywaniad a gafodd, yr oedd un ohonynt wedi torri rhydweili'r forddwyd.
- 1.13 Cafodd Oedolyn B ei arestio am lofruddio Oedolyn A ac, yn ystod ei gyfweiliad, rhoddodd ddatganiad wedi'i baratoi, yn cyfaddef ei ran ef ym marwolaeth Oedolyn A a gwaredu'r gyllell a ddefnyddiodd. Plediodd yn euog i lofruddiaeth a chafodd ei ddefnyddu i 20 mlynedd o garchar, gydag o leiaf 16½ flynedd cyn y byddai'n cael ei ystyried ar gyfer parôl.
- 1.14 Bu cysylltiad cyfyngedig ag asiantaethau cyn marwolaeth Oedolyn A. Yn ystod cyfnod yr adolygiad, dim ond un digwyddiad a fu a amlygodd drais/camdriniaeth ddomestig posibl.
- 1.15 Ar 3 Mawrth 2015, penderfynodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un ei bod hi'n ymddangos bod marwolaeth Oedolyn A yn dod o fewn meini prawf yr Arweiniad Statudol Amlasiantaeth ar gyfer cynnal adolygiadau o ddynladdiad domestig, a gyhoeddir o dan Adran 9(3) y Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (2004), sef bod marwolaeth Oedolyn A wedi'i achosi gan: *'berson yr oedd hi'n perthyn iddo neu y bu neu yr oedd mewn perthynas bersonol glôs ag ef'*
- 1.16 Penderfynodd y Panel Ystyried y dylid cynnal adolygiad o ddynladdiad domestig. Cadarnhaodd Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un y penderfyniad ar 3 Mawrth 2015. Ar 30 Ebrill 2015, rhoddwyd hysbysiad i'r Swyddfa Gartref o'r bwriad i gynnal adolygiad o ddynladdiad domestig.
- 1.17 Ar 1 Ebrill 2015, gofynnwyd i bob asiantaeth selio'u cofnodion a gwirio'u hymwneud ag Oedolyn A ac Oedolyn B. Gofynnwyd iddynt gynnal adolygiad o'u cofnodion ynghylch unrhyw gysylltiad perthnasol a fu o bosibl gydag Oedolyn A ac Oedolyn B.

### 1.18 **Cwmpas yr Adolygiad**

- 1.19 Credir bod Oedolyn A, y dioddefwr, ac Oedolyn B, y cyflawnwr, wedi bod mewn perthynas am dri mis cyn ei marwolaeth. Bydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys gwybodaeth am Oedolyn A ac Oedolyn B rhwng 5 Mai 2013 a 5 Mai 2014.
- 1.20 Diben mynd ymhellach yn ôl i hanes perthnasoedd Oedolyn A ac Oedolyn B yw canfod patrymau ymddygiad a chyd-destun ar gyfer ystyried yr Adolygiad o Ddyladdiad Dynol ynddo, yn berthnasol i'w perthynas. Roedd y panel o'r farn bod y raddfa amser, sef blwyddyn, yn ddigon o amser i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi.
- 1.21 Fodd bynnag, os oedd unrhyw asiantaeth o'r farn bod gwybodaeth berthnasol ar gael y tu hwnt i'r cyfnod a oedd yn cael ei adolygu, cytunwyd y dylid cynnwys y wybodaeth yn eu Hadolygiadau o Reolaeth Fewnol. Yn ogystal â'r Adolygiadau o Reolaeth Fewnol, darparodd pob asiantaeth gronoleg o'u rhyngweithio â'r unigolion a nodwyd, gan gynnwys pa benderfyniadau a wnaed a pha gamau a gymerwyd. Fe wnaeth yr Adolygiadau o Reolaeth Fewnol ystyried y Cylch Gorchwyl, p'un a ddilynwyd gweithdrefnau mewnol, p'un a oedd y rhain yn cael eu hystyried yn ddigonol yn sgil myfyrio arnynt, dod i gasgliad a, lle bo'r angen, llunio argymhelliad o safbwynt yr asiantaeth.

### 1.22 **Cylch Gorchwyl**

1.23 Diben yr adolygiad yw:

- Sefydlu pa wersi sydd i'w dysgu o'r ddyladdiad domestig ynghylch y ffordd y mae sefydliadau a gweithwyr proffesiynol lleol yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig
- Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny o fewn a rhwng asiantaethau, sut y byddir yn gweithredu arnynt ac o fewn pa raddfeydd amser, a'r hyn y mae disgwyl iddo newid o ganlyniad
- Cymhwyso'r gwersi hynny i ymatebion gwasanaethau a chynnwys unrhyw newidiadau priodol i bolisiau a gweithdrefnau
- Atal ddyladdiadau domestig yn y dyfodol trwy wella ymatebion gwasanaethau ar gyfer holl ddioddefwyr cam-drin domestig, a'u plant, trwy weithio gwell o fewn asiantaethau neu rhwng asiantaethau

Bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- P'un a oedd y digwyddiad y bu farw Oedolyn A ynddo yn ddigwyddiad 'un-tro' neu a oedd unrhyw arwyddion rhybudd a ph'un a ellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr trais domestig
- P'un a oedd Oedolyn A neu deulu / ffrindiau / cydweithwyr wedi wynebu

unrhyw rwystrau rhag rhoi gwybod am unrhyw gam-drin yng Nghasnewydd neu rywle arall, gan gynnwys p'un a oeddent yn gwybod sut i roi gwybod am gam-drin domestig pe bai hi wedi bod eisiau gwneud

- P'un a oedd Oedolyn A wedi cael ei cham-drin mewn perthnasoedd blaenorol yng Nghasnewydd neu rywle arall, a ph'un a oedd y profiad hwn wedi effeithio ar y tebygolrwydd y byddai'n ceisio cymorth yn ystod y misoedd cyn iddi farw
- P'un a gollwyd cyfleoedd i weithwyr proffesiynol 'wneud ymholiadau cyffredinol' ynghylch unrhyw gam-drin domestig a ddiodefodd Oedolyn A
- P'un a oedd gan Oedolyn B unrhyw hanes blaenorol o ymddygiad camdriniol tuag at bartner clòs a ph'un a oedd unrhyw asiantaethau yn gwybod am hyn
- P'un a gollwyd cyfleoedd i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig yn gysylltiedig ag Oedolyn A neu Oedolyn B
- Dylai'r adolygiad amlygu unrhyw ofynion hyfforddiant neu godi ymwybyddiaeth y mae eu hangen i sicrhau bod gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a / neu wasanaethau cam-drin domestig yn y ddinas
- Yn ogystal, bydd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymddangos yn berthnasol i'r dioddefwr, y cyflawnwr ac i blant dibynnol, e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a marwolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

Yn benodol i'r adolygiad hwn, caiff y canlynol eu hystyried:

- O ran oedolyn agored i niwed, bydd yr adolygiad yn amlygu unrhyw ddysgu o'r achos hwn a fyddai'n gwella arferion diogelu yn gysylltiedig â'r trais domestig y mae'r oedolyn agored i niwed mewn perygl, neu ofalwyr yr oedolyn agored i niwed mewn perygl, yn ei ddiodef
- Yn benodol, dylai'r adolygiad amlygu a oes unrhyw ddysgu yn ymwneud â chyfathrebu effeithiol, rhannu gwybodaeth, asesu risg a dilyn gweithdrefnau effeithiol, ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hynny sy'n ymwneud â'r oedolyn agored i niwed dan sylw. Hefyd, dylai amlygu unrhyw arfer da y gellir adeiladu arno

1.24 Sail resymegol y broses adolygu oedd sicrhau bod asiantaethau'n ymateb yn briodol i ddiodefwr trais domestig trwy gynnig dulliau cymorth, gweithdrefnau, adnoddau ac ymyriadau priodol, a'u rhoi ar waith, gyda'r nod o osgoi achosion o gam-drin a dynladdiad domestig yn y dyfodol.

Amlygodd yr adolygiad y meysydd cyffredinol canlynol i'w hystyried:

### 1.25 Ymwneud gan y teulu

- Sut dylai ffrindiau, aelodau'r teulu a rhwydweithiau cymorth eraill a, lle y bo'n briodol, y cyflawnwr, gyfrannu at yr adolygiad a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hwyluso hynny?
- Sut dylai materion yn ymwneud â theulu a ffrindiau, y cyhoedd a'r cyfryngau gael eu rheoli cyn ac yn ystod yr adolygiad, ac wedi hynny, a phwy ddylai gymryd cyfrifoldeb amdano?

### 1.26 Prosesau Cyfreithiol

- Sut bydd yr adolygiad yn cyfrif am ymchwiliad Crwner ac (os yw'n berthnasol) unrhyw ymchwiliad troseddol i'r dynladdiad, gan gynnwys ystyriaethau datgelu, i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn gallu cael ei rhannu heb achosi oedi sylweddol i'r broses adolygu na pheryglu'r broses farnwrol?
- A oes angen i'r panel adolygu gael cyngor cyfreithiol annibynnol am unrhyw agwedd ar yr adolygiad arfaethedig?

### 1.27 Ymchwil

- Sut dylai'r broses adolygu gyfrif am wersi blaenorol a ddysgwyd o ymchwil ac adolygiadau blaenorol o ddynladdiadau domestig?

1.28 Er mwyn llunio barn ynghylch p'un a ellid bod wedi rhagweld a/neu atal y farwolaeth, gofynnwyd i awdur pob adolygiad o reolaeth fewnol gynnwys gwybodaeth am yr holl faterion canlynol yn benodol i'r achos hwn a dadansoddiad ohonynt:

### 1.29 Amrywiaeth

- A oes unrhyw ystyriaethau penodol yn ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel ethnigrwydd, oedran ac anabledd, y gallai fod angen eu hystyried yn arbennig?

### 1.30 Cyfrifoldeb amlasiantaethol

- A oedd y dioddefwr (Oedolyn A) yn destun Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg?
- A oedd y cyflawnwr (Oedolyn B) yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd?
- A oedd y cyflawnwr yn destun Rhaglen Cyflawnwyr Trais Domestig?
- A fu gan y dioddefwr unrhyw gysylltiad â mudiad neu linell gymorth trais domestig?
- A oedd y dioddefwr neu'r cyflawnwr yn 'oedolyn agored i niwed'?
- A oedd unrhyw broblemau cyfathrebu, rhannu gwybodaeth neu ddarparu

gwasanaeth rhwng gwasanaethau?

### 1.31 **Cyfrifoldeb asiantaethau unigol**

- A oedd y gwaith yn yr achos hwn yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau pob sefydliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles oedolion ac yn gyson â safonau proffesiynol ehangach?
- Beth oedd y prif bwyntiau/gyfleoedd perthnasol ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau yn yr achos hwn yn gysylltiedig â'r dioddefwr a'r cyflawnwr?
- Beth oedd safon unrhyw asesiadau amlasiantaeth?
- A gafodd effaith trais domestig ar y dioddefwr ei chydabod?
- A oedd camau gweithredu yn cydsynio ag asesiadau a phenderfyniadau a wnaed? A oedd gwasanaethau priodol wedi'u cynnig/darparu neu a wnaed ymholiadau perthnasol, yn sgil asesiadau?
- A oedd digon o atebolrwydd gan reolwyr am benderfyniadau? A oedd uwch reolwyr neu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill ynghlwm wrth adegau yn yr achos pan ddylent fod wedi bod ynghlwm?

### 1.32 **Materion yn gysylltiedig ag ethnigrwydd, anabledd neu ffydd a allai fod wedi cael dylanwad ar yr adolygiad hwn**

Roedd gan Oedolyn A anabledd dysgu.

### 1.33 **Adolygiadau eraill o ddynladdiadau domestig yn y rhanbarth neu yn genedlaethol sy'n debyg, ac a oes ymchwil berthnasol ar gael**

Ni nodwyd unrhyw beth adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

### 1.34 **Methodoleg**

Lluniwyd yr adroddiad trosolwg hwn o'r gronoleg amlasiantaethol, y wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adolygiadau o Reolaeth Fewnol, yr adroddiadau atodol, cyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Adolygiadau o Reolaeth Fewnol a phroses yr adroddiad trosolwg, ystyried adolygiadau blaenorol a chanfyddiadau ymchwil i amrywiol agweddau ar gam-drin domestig, a dadansoddiad o'r rhain, ynghyd â chymorth a chefnogaeth aelodau'r teulu.

### 1.35 **Wrth baratoi'r adroddiad trosolwg, cyfeiriwyd at y dogfennau canlynol:**

- Arweiniad Statudol Amlasiantaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer cynnal adolygiadau o ddynladdiadau domestig
- Pecyn Cymorth y Swyddfa Gartref i Awduron Adroddiadau Trosolwg ynghylch Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig
- Galwad i Derfynu Trais yn erbyn Menywod a Merched – Llywodraeth EM (Tachwedd 2010)



- *Barriers to Disclosure* – Walby ac Allen, 2004.
- Adolygiadau o Ddyladdiadau Domestig, y Swyddfa Gartref – Themâu cyffredin a nodwyd a gwersi a ddysgwyd – Tachwedd 2013.
- *Prevalence of intimate partner violence: findings from the WHO multi-country study on women's health and domestic violence*, 2006.
- *'If only we'd known': an exploratory study of seven intimate partner homicides in Engleshire* – Gorffennaf 2007
- Adolygiadau o Reolaeth Fewnol a Chronolegau Asiantaethau

### 1.36 **Asiantaethau Cyfrannog**

Gofynnwyd i'r asiantaethau canlynol roi adroddiadau cronolegol o'u cysylltiad ag Oedolyn A ac Oedolyn B cyn marwolaeth Oedolyn A:

- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Cyngor Dinas Casnewydd

### 1.37 Roedd yn ofynnol i bob asiantaeth adrodd ar y canlynol:

- Cronoleg o ryngweithiadau ag Oedolyn A, ei theulu a/neu Oedolyn B
- Pa gamau a gymerwyd a dadansoddiad o'r camau hynny
- P'un a ddilynwyd gweithdrefnau mewnol ac a yw'r gweithdrefnau hynny'n briodol yn sgil marwolaeth Oedolyn A
- Casgliadau ac argymhellion o safbwynt yr asiantaeth

### 1.38 **Awdur yr Adroddiad Trosolwg/Cadeirydd Panel yr Adolygiad o Ddyladdiad Domestig**

Gofynnodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol am dendrau gan ymgeiswyr addas ar gyfer rôl Cadeirydd ac awdur yr adroddiad trosolwg.

Yn dilyn proses gystadleuol, comisiynwyd Johnston and Blockley Ltd i ddarparu Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg

### 1.39 Un o bartneriaid y cwmni, Mr Tony Blockley, ymgwymerodd â rôl Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg. Mae'n ymgynghorydd annibynnol arbenigol ym maes ymchwilio i ddyladdiadau a'u hadolygu. Mae ganddo brofiad o fod yn uwch reolwr ym mhob agwedd ar amddiffyn y cyhoedd. Mae wedi ymwneud â nifer o adolygiadau o ddyladdiadau ar draws y Deyrnas Unedig a thramor, bu'n gadeirydd MAPPA ac roedd yn gyfrifol am holl faterion amddiffyn y cyhoedd pan oedd yn bennaeth troseddu yn un o heddluoedd y DU. Mae wedi ymwneud â nifer o adolygiadau o ddyladdiadau domestig ac adolygiadau achos difrifol. Yn ogystal, mae'n ymgynghorydd arbenigol i fudiad trydydd sector sy'n cynnig gwasanaethau ynghylch cam-drin domestig (nid yn ardal Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Casnewydd) ac mae'n uwch-ddarlithydd troseddeg ym Mhrifysgol Derby. Yn y rôl hon, mae wrthi'n ymchwilio i gam-drin domestig ac, yn benodol, rhwystrau rhag rhoi gwybod am gam-drin domestig a chanlyniad rheoli risgiau yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi adolygiadau o ddyladdiadau domestig a chyfweld yn helaeth â

dioddefwyr a chyflawnwyr.

#### 1.40 Panel yr Adolygiad o Ddyladdiad Domestig

Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar ffurfio panel trosolwg yn cynnwys asiantaethau a gafodd gysylltiad ag Oedolyn A ac Oedolyn B yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad, ynghyd ag asiantaethau heb gysylltiad, gan gynnwys cynrychiolydd o Wasanaeth Trais Domestig arbenigol.

Un ystyriaeth i'r adolygiad oedd sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o aelodau panel a allai gynnig gwybodaeth am drais a cham-drin domestig, a phrofiad o hynny. Ystyriwyd hefyd mai priodol fyddai sicrhau aelodau'r panel a oedd yn deall Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd a phobl ag anabledau dysgu, i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cyd-destun yr oedd y dioddefwr yn cael ei cham-drin ynddo. Cyflawnwyd hyn trwy bresenoldeb a chyfranogiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, Cymorth i Fenywod Casnewydd a phennaeth gwasanaethau oedolion a chymunedol, ynghyd â phob aelod arall.

#### 1.41 Mae Panel yr Adolygiad o Ddyladdiad Domestig yn cynnwys:

- Tony Blockley Johnston and Blockley Ltd  
Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad
- Caroline James, Cydlynnydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cyngor Dinas Casnewydd
- Uwcharolygydd Glyn Fernquest Heddlu Gwent
- Jonathan Griffiths, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Cyngor Dinas Casnewydd
- Lin Slater, Cyfarwyddwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin  
Cynorthwyol Nyrsio (Diogelu) Bevan
- Yr Athro Catherine Bright Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin  
Seiciatrydd Ymgynghorol a Bevan  
Chyfarwyddwr Clinigol, Anabled  
Dysgu
- Nicola Davies Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Sharon Wilkins, Pennaeth Cartrefi Dinas Casnewydd  
Gwasanaethau Tai
- Carole Parsons, Ymgynghorydd Cyngor Dinas Casnewydd  
Annibynnol ar Drais Domestig
- Tori Brown, Rheolwr Gwasanaeth Cymorth i Fenywod Casnewydd
- Angelina Rodriquez, Dirprwy Brif Bawso  
Weithredwr

Yn ogystal, awduron adroddiadau'r adolygiadau o reolaeth fewnol yw:

- Alys Jones Cyngor Dinas Casnewydd

- Steve Davies
- Linda Brown

Heddlu Gwent  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- 1.42 Cafodd aelodau'r teulu eu gwahodd i gymryd rhan ym mhroses yr adolygiad. Fe wnaeth mam-gu (Perthynas 1) Oedolyn A ar ochr ei mam, yr oedd Oedolyn A yn byw gyda hi, chwaer (Perthynas 2) Oedolyn A a mam fiolegol (Perthynas 3) Oedolyn A gymryd rhan yn yr adolygiad.

Ysgrifennwyd at Oedolyn B yn y carchar yn ei wahodd i gymryd rhan ym mhroses yr adolygiad o ddynladdiad domestig, ond nid yw wedi ymateb hyd yn hyn.

1.43 **Prosesau cyfochrog**


1.44 **Cwest / Ymchwiliad Troseddol**

Cynhaliwyd ymchwiliad trylwyr gan yr heddlu i amgylchiadau marwolaeth A, yn arwain at roi Oedolyn B ar brawf am lofruddio. Fe'i cafwyd yn euog o lofruddiaeth a'i ddedfrydu i 20 mlynedd yn y carchar, gydag o leiaf 16½ flynedd cyn y gellid ei ystyried ar gyfer parôl.

- 1.45 Er bod marwolaeth Oedolyn A wedi'i gyfeirio at y Crwner, ni chynhaliwyd cwest, yn unol â deddfwriaeth.

1.46 **Ymwneud gan aelodau'r teulu**

1.47 **Cyfansoddiad y teulu** (y cyfeirir atynt yn yr adolygiad)



- 1.48 Cytunodd y panel y byddai'r adolygiad yn elwa o ymwneud gan aelodau'r teulu; cydnabuwyd y gallai fod ganddynt rôl bwysig yn darparu gwybodaeth gefndir, nad oedd yn hysbys i wasanaethau, a darparu gwybodaeth am Oedolyn A ac Oedolyn B.
- 1.49 Cysylltwyd ag aelodau'r teulu, Perthnasau 1 a 3, a chwaer Oedolyn A, ar ôl yr achos llys i roi gwybod iddynt am broses yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig. Er bod y panel yn cydnabod nad yw hyn yn cyd-fynd yn union â chanllawiau'r Swyddfa Gartref, ar ôl ymgynghori ag Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu, ystyriwyd y byddai'n briodol aros cyn anfon yr hysbysiad a'r gwahoddiad gan fod llawer o'r teulu'n debygol o gael eu galw'n dystion yn ystod yr achos troseddol.

Ni fyddai'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r teulu hyd nes byddai wedi'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar y posibilrwydd y gallai'r adroddiad gael ei ailddrafftio sawl tro, felly byddai gweithredu fel hyn yn lleihau effaith a straen ailymweld â'r teulu ar sawl achlysur.

#### 1.50 **Ymwneud gan y teulu**

Hoffai panel yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig nid yn unig estyn eu cydymdeimlad diffuant i deulu Oedolyn A, ond hefyd ddiolch iddynt am eu cymorth ac am eu dewrder a'u hurddas trwy gydol y broses.

- 1.51 Cyfarfu'r Cadeirydd â mam-gu Oedolyn A ar ochr y fam (Perthynas 1) a chwaer iau Oedolyn A (Perthynas 2). Yn ystod rhan ddiweddaraf y cyfarfod, cyrhaeddodd mam Oedolyn A (Perthynas 3).
- 1.52 Ni wnaeth Perthynas 2 gyfrannu gwybodaeth a oedd yn wahanol i Berthynas 1, ond roedd hi'n bresennol ac fe wnaeth gadarnhau'r materion yr oedd hi'n ymwybodol ohonynt. Cyrhaeddodd Perthynas 3 yn ystod rhan ddiweddaraf y cyfarfod a chadarnhau rhywfaint o'r wybodaeth.
- 1.53 Roedd Oedolyn A ar y gofrestr amddiffyn plant a symudodd i fyw gyda'i mam-gu (Perthynas 1) ym mis Gorffennaf 2001. Rhoddwyd cyfrifoldeb rhiant i Berthynas 1 ym mis Gorffennaf 2002.

Roedd mam Oedolyn A, Perthynas 3, mewn perthynas â [REDACTED]

- 1.54 Disgrifiodd Perthynas 1 blentyndod Oedolyn A fel un "anodd iawn", [REDACTED]. Dywedodd Perthynas 1 y byddai Oedolyn A yn sgrechian, yn gweiddi ac yn cnoi pobl yn gyson. Fodd bynnag, mynnodd Perthynas 1 y dylai Oedolyn A gael plentyndod mor normal â phosibl, gan ei chefnogi drwy addysg brif ffrwd lle y cafodd Oedolyn A lwyddiant a bywyd normal yn cymryd rhan yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau.
- 1.56 Yn ôl y teulu, pan oedd Oedolyn A tua 17 oed, dechreuodd gyfarfod â bechgyn ar y rhyngwrwyd a byddent yn dod i'w chasglu yn eu car a mynd ymaith am y noson. Roedd hyn yn digwydd yn rheolaidd a byddai Oedolyn A bob amser yn dweud y

- byddai'n iawn. Esboniodd Perthynas 1 y byddai'n arswydo ac na fyddai'n cysgu hyd nes bod Oedolyn A yn dod adref. Fodd bynnag, er ei bod hi'n pryderu, roedd hi hefyd eisiau rhoi'r rhyddid i Oedolyn A fwynhau ei phlentyndod a blynyddoedd yr ardegau.
- 1.57 Pan oedd Oedolyn A yn 18 oed, roedd hi eisiau mynd i'r coleg ac fe wnaeth Perthynas 1 ei chefnogi yn hyn o beth a sicrhau ei bod yn gallu cymryd rhan ym mywyd y coleg.
- 1.58 Daeth i'r amlwg i Berthynas 1 fod Oedolyn A yn cael ei cham-drin yn ariannol, gan wario arian ar bobl eraill er nad oedd Oedolyn A yn adnabod mai cam-drin oedd hyn. Credai Perthynas 1 fod hyn yn dangos pa mor agored y gallai Oedolyn A fod i niwed. Rhoddodd Perthynas 1 enghraifft o hyn, sef pan oedd gan Oedolyn A gontract am ffôn am £42 y mis a chafodd oriawr am ddim; dywedodd Oedolyn A ei bod wedi gwerthu'r oriawr. Rywbryd yn ystod contract y ffôn, fe wnaeth y ffôn roi'r gorau i weithio a phan holodd Perthynas 1 am hyn yn y siop lle prynwyd y ffôn, dywedwyd wrthi fod y debyd uniongyrchol heb ei dalu. Talodd Perthynas 1 y bil a phan ofynnwyd iddi am y mater, esboniodd Oedolyn A ei bod wedi gwario'i harian ar sigarêts. Fe wnaeth Perthynas 1 sôn am hyn yn benodol gan nad oedd Oedolyn A yn ysmygu'n drwm ac ni fyddai wedi defnyddio cynifer o sigarêts â hynny ei hun; eto roedd hyn yn dangos pa mor agored oedd Oedolyn A i niwed. Trafododd Perthynas 1 y digwyddiad penodol hwn gyda'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol.
- 1.59 Dywedodd Perthynas 1 fod Oedolyn A yn derbyn budd-daliadau o £200 bob pythefnos ond roedd hi wedi cael nifer o fenthyciadau. Roedd un yn fenthyciad diwrnod cyflog o £100 ac roedd angen iddi hi dalu £600 yn ôl. Fe wnaeth Oedolyn A gael nifer o fenthyciadau eraill hefyd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ei bod hi'n gwario'r arian arni hi ei hun.
- 1.60 Er ei bod hi'n cael y £200 bob pythefnos, ni fyddai'n dod ag unrhyw beth adref; roedd Perthynas 1 yn credu bod ffrindiau Oedolyn A yn mynd â'r arian, naill ai mewn arian parod neu nwyddau fel sigarêts, alcohol ac unrhyw beth arall y gallent eu cael. Fe wnaeth Oedolyn A werthu ei theledu a'i chyfrifiadur llechen yn ôl y sôn, ond mae Perthynas 1 o'r farn ei bod '*wedi'i roi i ffwrdd*', i bob diben.
- 1.61 Dywedodd Perthynas 1 fod Oedolyn A wedi cael dau gariad arall, bob un am ryw 12 mis, cyn ei pherthynas ag Oedolyn B. Daeth y berthynas gyntaf i ben oherwydd bod Oedolyn A wedi dweud ei fod yn gofyn gormod. Daeth yr ail i ben oherwydd ei bod wedi cael llond bol ar ei fam. Nid oedd unrhyw awgrym o drais na chamdriniaeth yn y naill berthynas na'r llall.
- 1.62 Yn ystod y berthynas ag Oedolyn B, roedd ef wedi mynnu ei bod hi'n mynd i weld ei meddyg teulu ac yn cael meddyginiaeth; fe wnaeth ffrindiau Oedolyn A roi pwysau arni i wneud hyn hefyd. Roedd Perthynas 1 yn amau mai'r ffaith eu bod yn gyffuriau rheoledig oedd wrth wraidd hyn ac nid oedd hi'n siŵr am gymhellion y ffrindiau.
- 1.63 Nid oes gan Berthynas 1 unrhyw amheuaeth fod nifer o ffrindiau Oedolyn A yn ddylanwad drwg. Fe enwodd hi ddau yn benodol. Roedd y cyntaf wedi bod yn ddylanwad drwg ers cryn amser ac roedd yr ail wedi bod yn bwlio Oedolyn A yn ddiweddar (nid yw eu henwau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn).

1.64 Bu nifer o ddigwyddiadau a achosodd rywfaint o bryder i Berthynas 1 am y berthynas ag Oedolyn B. Ar un achlysur, nid oedd Oedolyn A eisiau mynd adref o'r dafarn oherwydd dywedodd "*bydd e yn fy nharo i*". Ar achlysur arall, daeth Oedolyn A adref gyda chlais ar ei choes a phan ofynnodd Perthynas 1 iddi hi beth oedd wedi digwydd, dywedodd ei bod wedi "*llithro i lawr y grisiau*". Ni ddywedwyd wrth nyrs gymunedol Oedolyn A am y digwyddiadau hyn.

1.65 Hefyd, fe wnaeth Perthynas 1 sôn am ddigwyddiad tua 8 Ebrill 2014, pan oedd Oedolyn B wedi tagu Oedolyn A. (Trafodir y digwyddiad hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.) Dywedodd fod Oedolyn B wedi cuddio ffôn Oedolyn A yn ystod y digwyddiad i'w hatal rhag ffonio unrhyw un.

(D.S. mae hwn yn arbennig o berthnasol oherwydd yn ystod Digwyddiad 1, y cyfeirir ato yn nes ymlaen, galwodd hi ffrind ar ei ffôn symudol ac felly mae'n ymddangos bod hwn yn ddigwyddiad ar wahân (digwyddiad 2 o bosibl) ac roedd Oedolyn B wedi'i hatal rhag ffonio unrhyw un).

1.66 Gofynnwyd rhai cwestiynau penodol i Berthynas 1 am fynediad at wasanaethau cam-drin domestig. Atebodd nad oedd hi'n ymwybodol o'r gwasanaethau a oedd ar gael i Oedolyn A nac iddi hi.

1.67 Yn y pen draw, dywedodd Perthynas 1 fod Oedolyn A wedi'i dweud wrthi ei bod "*yn ei garu ef*" (Oedolyn B) ac yn ei barn hi (Perthynas 1) "*Ni fyddai neb wedi gallu gwneud unrhyw beth*" i atal marwolaeth Oedolyn A. Cytunodd Perthynas 2 a Pherthynas 3 â Pherthynas 1, sef '*Ni fyddai neb wedi gallu gwneud unrhyw beth.*'

## 2 Y Ffeithiau

2.1 Roedd Oedolyn A ac Oedolyn B wedi bod mewn perthynas am dri mis cyn marwolaeth Oedolyn A. Nid oes unrhyw wybodaeth am y ffordd y gwnaethant gyfarfod, er bod y teulu'n meddwl eu bod wedi cwrdd trwy ffrindiau i'w gilydd. Roedd Oedolyn B yn byw yng nghyfeiriad ei fam a bu Oedolyn A yn aros gydag ef weithiau. Roedd Oedolyn A yn byw gyda'i mam-gu, a oedd â chyfrifoldeb rhiant amdani pan oedd hi'n blentyn.

2.2 Trwy gydol y cyfnod tri mis, ni wnaeth Oedolyn A, Oedolyn B nac unrhyw barti arall yr un alwad ffôn i Heddlu Gwent ynghylch trais neu gam-drin domestig.

2.3 Roedd Oedolyn A ac Oedolyn B wedi bod allan i dafarn leol nos Sul, 4 Mai 2014, cyn gadael a dychwelyd i gyfeiriad Oedolyn B (fel ym mhwynt 2.20). Wrth iddynt ddychwelyd i'r cyfeiriad, buont yn dadlau ac fe wnaeth hynny barhau pan gyrhaeddont y cyfeiriad.

2.4 Roedd Oedolyn A wedi cynhyrfu a rhedodd i fyny'r grisiau, gan gloi ei hun yn yr ystafell ymolchi. Fe wnaeth Oedolyn B ei pherswadio i agor y drws a phan wnaeth hynny, dechreuodd ef ei thagu. Wrth iddo ei thagu, fe gwmpodd hi yn ôl i mewn i'r bath. Yna, aeth Oedolyn B i nôl cylllell o'r gegin neu o'r cyntedd a'i thrywanu 27 gwaith.

- 2.5 Yn ystod achos llys Oedolyn B, nododd y Barnwr Cox fod Oedolyn B heb geisio cymorth i Oedolyn A gan y gwasanaethau brys a'i fod wedi'i gadael hi. Wrth grynhoi, nododd y Barnwr Cox ei bod hi'n arwyddocaol nad oedd gan Oedolyn A unrhyw anafiadau yn sgil amddiffyn ei hun.
- 2.6 Pan ddarganfuwyd Oedolyn A, roedd hi wedi gwisgo amdani ac yn gwisgo'i chôt hefyd. Roedd ganddi ei bag llaw gyda hi a 'kitbag' dros ei hysgwydd. Tybiaeth heddlu Gwent oedd ei bod hi ar fin gadael y cyfeiriad. Roedd Oedolyn A wedi cael ei gorchuddio â duvet.
- 2.7 Dywedodd Oedolyn B wrth ddau o bobl am y digwyddiad cyn ffonio'r heddlu. Dywedodd wrth Dyst 1 ei fod ef ac Oedolyn A wedi cael dadl a aeth "yn rhy bell". Dywedodd Tyst 1 wrth Oedolyn B i fynd adref i ddatrys pethau. Drannoeth, sef dydd Llun, 5 Mai 2014, dywedodd wrth Dyst 2 ei fod "wedi gwneud rhywbeth twp."
- 2.8 Aeth Tyst 2 gydag Oedolyn B i'w gyfeiriad, lle y gwelodd Oedolyn A yn y bath. Fe wnaeth Tyst 2 ffoi o'r tŷ a ffonio Heddlu Gwent. Yn y cyfamser, roedd Oedolyn B wedi ffonio'r heddlu a rhoi gwybod iddynt ei fod "wedi llofruddio'i gariad trwy ei thagu a'i thrywanu".
- 2.9 Yn ystod yr achos llys, dywedodd y barnwr fel a ganlyn am Oedolyn B

*"had a little and pointless argument at about 10.30pm the previous evening, you had strangled her in the bathroom, she fell into the bath and then you stabbed her with a silver knife which you had obtained from the kitchen."*

Dywedodd y Barnwr Cox fod yr ymosodiad fel a ganlyn: *"a sustained and brutal assault upon your defenceless 21 year old girlfriend."*

- 2.10 Cafodd Oedolyn B ei ddedfrydu i 20 mlynedd o garchar, gydag o leiaf 16½ flynedd dan glo.
- 2.11 **Cefndir Oedolyn A (y Dioddefwr) ac Oedolyn B (y Cyflawnwr)**
- 2.12 **Gwybodaeth am y Dioddefwr**

Roedd Oedolyn A yn fenyw ifanc ag Anabledd Dysgu Ysgafn. Roedd hi wedi byw gyda'i mam-gu ar ochr y fam (Perthynas 1) er pan oedd hi'n 9 oed, pan oedd ei mam (Perthynas 3) wedi'i gadael hi mewn gofal oherwydd perthynas â [REDACTED].

[REDACTED]

- 2.13 Mae pobl ag Anabledd Dysgu Ysgafn yn cael trafferth dysgu (ni fyddant yn gallu darllen nac ysgrifennu, yn aml) a gallant gael anawsterau â rhifedd, gofalu am arian a hunanofal. Gall pobl eu hecsbloetio ac roedd tystiolaeth o hyn yn yr ecsbloetio gan

ei ffrindiau a'i chymdeithion. Nid adlewyrchiad o Oedolyn A yw hyn, ond adlewyrchiad o ymddygiadau camdriniol y ffrindiau a'r cymdeithion.

- 2.14 Yn 10 oed, cafodd Oedolyn A ddiagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. O oedran ifanc, nodwyd bod Oedolyn A yn unigolyn y byddai angen cymorth arni gan wasanaethau ac roedd ganddi Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol, a oedd yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. [REDACTED]. Mae hyn hefyd yn cynnwys anhwylder straen wedi trawma ac anhwylderau eraill sy'n parhau i oedolaeth. Mae rhywfaint o ymchwil yn ategu'r haerriad fod unigolion ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn fwy tueddol o ddiodef camdriniaeth ac yn fwy agored i hynny. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r cysylltiad hwn.
- 2.15 Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod Oedolyn A yn oedolyn agored i niwed ond nid oedd yr un lefel eglurder gan Wasanaeth Oedolion a Chymunedol Cyngor Dinas Casnewydd. Gwneir sylw ar hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.
- 2.16 Aseswyd bod gan Oedolyn A y galluedd meddyliol i wneud rhai penderfyniadau a chymryd rheolaeth ar ei bywyd, a chyfeirir yn benodol yn Adolygiad Cyngor Dinas Casnewydd o Reolaeth Fewnol fod y canlynol wedi'i gofnodi yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005,

*“The main and presenting principle is that “A person must be assumed to have capacity unless it is established that they lack capacity.” All professionals referred to in the chronologies who had involvement with her all agreed that the assumption was fully met. This would, therefore, allow her to make potential unwise decisions regarding all key aspects of her life.”*

Yn 2012, pan oedd Oedolyn A yn 20 oed, cafodd ddiagnosis o anhwylder y sbectrum awtistig. Yn ystod y diagnosis hwnnw, dywedodd yr Ymgynghorydd bod “[Oedolyn A] yn ymgyflwyno fel petai'n fwy abl nag yw hi.” Mae'n eglur o drafodaethau â Perthynas 1 fod Oedolyn A wedi cael plentyndod heriol oherwydd ei chyflwr, ond oherwydd dymuniadau Oedolyn A ac ar er mwyn iddi allu byw bywyd mor normal â phosibl a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r ardegau, roeddent wedi'i magu hi a'i chadw mewn addysg brif ffrwd.

- 2.17 Yng nghofnodion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Cyngor Dinas Casnewydd, nodir fod Oedolyn A yn ‘ymgyflwyno fel petai'n abl iawn.’ Roedd hi'n gallu defnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol a byddai'n aros gartref gyda'i chariad (nid Oedolyn B) pan aeth Perthynas 1 ar wyliau. Hefyd, mae'n datgan “*Fodd bynnag, roedd arsylwadau parhaus dros y blynyddoedd dilynol wedi dangos ei bod hi'n fwy galluog o lawer yn ddeallusol ac annibynnol nag a ragdybiwyd yn wreiddiol.*” Nid oes unrhyw gofnodion meddygol sy'n ategu'r wybodaeth hon.
- 2.18 Yn ystod 2013, fe wnaeth Perthynas 1 a'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol fynegi pryder ynghylch meddyginiaeth Oedolyn A a'i bod hi (Oedolyn A) yn peri risg i'w hunan, trwy aros allan ac yfed gormod. Roedd Perthynas 1 a gweithwyr iechyd proffesiynol yn credu bod ffrindiau yn ei hecsbloetio'n ariannol. Roedd Oedolyn A wedi cael benthyciadau diwrnod cyflog a, hefyd, wedi gwerthu nifer o eitemau



personol. Roedd Perthynas 1 yn poeni am ei rhesymau dros wneud hyn, gan nad oedd ganddi ymrwymadau ariannol ac roedd ganddi gefnogaeth ariannol ddigonol. Ni roddwyd gwybod i'r heddlu am y mater hwn o gwbl ac ni fu'n destun ymchwiliadau pellach gan neb. Dylid ystyried bod hyn yn gyfle a gollwyd i amlygu cam-drin posibl.

- 2.19 Yn ôl Perthynas 1 a Pherthynas 2, roedd Oedolyn A wedi cael tri o gariadon, gan gynnwys Oedolyn B. Nid oedd Perthynas 1 na Pherthynas 2 wedi bod yn ymwybodol o unrhyw broblemau gyda'r ddau flaenorol.

### 2.20 **Gwybodaeth am y Cyflawnwr**

Roedd Oedolyn B yn ddyn sengl a oedd yn byw gyda'i fam, yn ei chyfeiriad hi. Roedd yn ddi-waith ac wedi bod felly ers cryn amser.

- 2.21 Prin iawn oedd cysylltiad Oedolyn B ag asiantaethau, heblaw am un digwyddiad wedi'i gofnodi, pan fu'r heddlu'n gysylltiedig ar 20 Tachwedd 2010.
- 2.22 Digwyddiad gyda phartner blaenorol (Oedolyn C) oedd hwn, pan gafodd Oedolyn B ddadl â'i dad a phartner ei dad (mam Oedolyn C), ac o ganlyniad i hyn, ymosododd ar ei dad a'i bartner (Roedd ei dad wedi gadael mam Oedolyn B ac wedi dechrau perthynas â mam Oedolyn C).
- 2.23 Yn dilyn yr ymosodiad, fe wnaeth ddychwelyd i fflat Oedolyn C a dechrau *'ymddwyn yn rhyfedd iawn tuag ati'*, i'r fath raddau nes y gadawodd hi'r fflat yn poeni am ei diogelwch.
- 2.24 Ar ôl i Oedolyn C adael y fflat, fe wnaeth Oedolyn B gymryd cylllell ac fe'i gwelwyd yn yr ardal yn datgan ei fod wedi 'trywanu'i gariad a'i thorri'n ddarnau'. Fe wnaeth aelodau'r cyhoedd ei atal a chafodd ei arestio'n ddiweddarach gan yr heddlu. Darganfuwyd Oedolyn C yn ddiogel wedyn, er bod Oedolyn B wedi 'difetha ei fflat'.
- 2.25 Cafodd Oedolyn B ddedfryd ohiriedig ar gyfer yr ymosodiadau a'r difrod troseddol i'r fflat.
- 2.26 Ni chafodd Oedolyn B gysylltiad pellach ag unrhyw asiantaethau tan farwolaeth Oedolyn A.

### 3 **Cronoleg**

- 3.1 Un achos blaenorol yn unig sydd wedi'i gofnodi o drais/cam-drin domestig yn gysylltiedig ag Oedolyn B, y cyfeiriwyd ato'n flaenorol. Digwyddodd hwn ym mis Tachwedd 2010.
- 3.2 Fe'i gwnaed ef yn destun Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig 12 Mis ar 13 Rhagfyr 2010, a derfynodd flwyddyn yn ddiweddarach, ar 12 Rhagfyr 2013.
- 3.3 Yn 2011, adroddwyd bod Oedolyn A ar goll, ond fe'i darganfuwyd yn ddiogel ychydig ar ôl adrodd amdano.

- 3.4 Yn ystod Chwefror 2013, cynhaliodd Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Cyngor Dinas Casnewydd ymweliad asesu unedig rheolaidd gydag Oedolyn A a Pherthynas 1. Cwblhawyd yr asesiad ac arfarnwyd nad oedd gan Oedolyn A unrhyw anghenion asesedig cymwys i'r Gwasanaethau eu bodloni.
- 3.5 Ym Mawrth 2013, aeth Heddlu Gwent ag Oedolyn A adref pan aeth hi ar goll yng Nghwmbrân. Esboniodd Perthynas 1 nad oedd Oedolyn A ar goll, ond ei bod wedi colli'r bws olaf adref ac wedi erfyn ar gar yr heddlu i stopio, ac aethpwyd â hi adref.
- 3.6 Yn Chwefror 2014, yn ystod ymweliad â'r cartref gan y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol, siaradodd Oedolyn A am ei chariad newydd, Oedolyn B. Fe wnaeth y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol drafod rhyw diogel a chytunodd Oedolyn A i ddefnyddio rhagofalon priodol.
- 3.7 Ar 7 Mawrth 2014, dywedodd Oedolyn A wrth y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol ei bod hi wedi bod yn aros allan gyda ffrindiau a bod ei ffrind ond ei heisiau ar gyfer ei harian. Disgrifiodd ddigwyddiad lle'r oedd wedi cusanu bachgen ac wedi dweud wrth ei chariad [Oedolyn B] pan oedd hi wedi meddwi. Rhoddwyd cyngor i Oedolyn A ar faint o alcohol roedd hi'n ei yfed.
- 3.8 Ar 8 Ebrill 2014, yn ystod ymweliad â'r cartref, rhoddodd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol ragor o gyngor i Oedolyn A am ymddygiad, yfed alcohol, aros allan drwy'r nos, arian, glendid ei hystafell a chymryd sylweddau anghyfreithlon. Dywedodd Perthynas 1 fod Oedolyn A wedi datgelu ei bod "*wedi'i thagu bron gan [Oedolyn B] wythnos diwethaf*", yn ystod yr ymweliad hwn. Trafododd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol atgyfeiriad Oedolyn Agored i Niwed (mae hyn hefyd yn cael ei alw'n atgyfeiriad 'POVA'). Mae atgyfeiriad Oedolyn Agored i Niwed/POVA yn darparu manylion am y cam-drin penodol. Nid yw'n asesiad risg (cyfeirir at hwn yn yr adran 'dysgu o'r adolygiad'.) Nid oedd Oedolyn A eisiau i'r heddlu fod yn gysylltiedig o gwbl ac ni roddodd ganiatâd i'r datgeliad. Cwblhaodd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol atgyfeiriad POVA; dylid ystyried hyn yn arfer da.
- 3.9 Ar 9 Ebrill 2014, rhoddodd Perthynas 2 wybod i'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol am yr un digwyddiad. Ar 10 Ebrill 2014, cafwyd sgwrs ffôn rhwng y Rheolwr Diogelu Oedolion Agored i Niwed a'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol a wnaeth yr atgyfeiriad. Ar yr adeg hon, fe wnaeth y rheolwr diogelu oedolion agored i niwed farnu nad oedd niwed arwyddocaol wedi digwydd ac na fodlonwyd trothwy POVA, a chaewyd yr atgyfeiriad yn ddiweddarach.

*Daw'r canlynol o 'Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, Arweiniad i reolwyr arweiniol dynodedig ar drothwyon ar gyfer cymhwyso polisi a gweithdrefnau rhyngasiantaethol Cymru ar gyfer amddiffyn oedolion' (drafft terfynol Chwefror 2011):*

*Mae Mewn Dwylo Diogel yn diffinio camdriniaeth ac mae'n cael ei egluro ym Mholisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd Eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin fel a ganlyn*

*"amharu ar hawliau dynol a sifil unigolyn gan berson neu bersonau eraill"*

Gall fod ar ffurf unrhyw un o'r canlynol ac weithiau gyfuniadau o'r categorïau hyn:

- cam-drin corfforol
- cam-drin rhywiol
- cam-drin seicolegol/emosiynol
- cam-drin ariannol/materol
- esgeuluso a/neu anwaith

Diben y gwerthusiad cychwynnol yw penderfynu a yw'r atgyfeiriad yn debygol o gyrraedd y trothwy ar gyfer gweithredu yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Cymru.

Gwneir hyn trwy benderfynu ar dri ffactor:

1. P'un a yw'r dioddefwr honedig yn oedolyn agored i niwed
2. P'un a fuodd, neu p'un a oes risg uniongyrchol, o gam-drin yn arwain at niwed sylweddol
3. P'un a gafodd ymddiriedaeth ei fradychu, gan gynnwys methu cyflawni dyletswydd gofal.

Daw i'r casgliad hwn:

Mae atgyfeiriad yn cyrraedd y trothwy ar gyfer amddiffyn oedolion os daw'r gwerthusiad cychwynnol i'r casgliad ei bod hi'n debygol bod y dioddefwr honedig yn oedolyn agored i niwed ac mae'n debygol ei fod wedi cael ei gam-drin, neu ei fod mewn perygl uniongyrchol o gael ei gam-drin, a bod hyn yn debygol o arwain at niwed sylweddol.

3.10 Ar 23 Ebrill 2014, yn ystod ymweliad gan y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol â'r cartref, rhoddodd Perthynas 1 wybodaeth fod Oedolyn A wedi cael dau fenthyciad diwrnod cyflog, ei bod hi'n gwerthu eitemau personol, yn ysmegu ac yn cymryd cyffuriau (nad oeddent yn gyffuriau ar bresgripsiwn).

3.11 Ar 5 Mai 2014, llofruddiwyd Oedolyn A.

### 3.12 **Gwybodaeth arall**

Mae'r adran hon yn amlinellu gwybodaeth a oedd yn hysbys i ffrindiau Oedolyn A, ond nid yr asiantaethau a oedd ynghlwm. Daeth y wybodaeth hon i'r amlwg yn dilyn marwolaeth Oedolyn A ac yn ystod ymchwiliad yr heddlu i'w llofruddiaeth.

Y wybodaeth a gasglwyd oddi wrth yr unigolion hyn yw'r atgofion gorau sydd ganddynt. Roedd eu hatgofion yn amwys a heb fanylder penodol i sicrhau cywirdeb ffeithiol, yn enwedig yn gysylltiedig â chyfnodau amser a dyddiadau.

3.13 **Digwyddiad 1**

Tua 1am ar fore Sadwrn (dyddiad anhysbys), ffoniodd Oedolyn A ffrind (Tyst 3) ac roedd hi wedi cynhyrfu ac yn crio. Dywedodd Oedolyn A “*we were arguing and [Adult B] has just tried to strangle me.*” Yn ystod yr alwad, a wnaeth bara rhwng 10 ac 20 munud, clywodd Tyst 3 sŵn curo ar ddrws. Yna, clywodd Oedolyn B yn dweud “*come on [Adult A], come out, stop having your tantrum*”, mewn llais a ddisgrifiodd yn un cras.”

3.14 Holodd Tyst 3 beth oedd wedi digwydd ond ni ddywedodd Oedolyn A wrthi beth oedd achos y ddadl na pham roedd Oedolyn B wedi ceisio'i thagu.

3.15 Ar ôl i'r alwad ddod i ben, fe wnaeth Tyst 3 ffonio Oedolyn A yn ôl a dywedodd Oedolyn A wrthi “*that everything was now OK and she was fine*”.

3.16 Mae Tyst 4, sef cariad Tyst 3, yn adnabod Oedolyn A ac Oedolyn B ac mae'n aml wedi bod yn eu cwmni, yn cymdeithasu. Mae wedi'u gweld nhw'n dadlau ac fel y mae'n ei ddisgrifio “*screaming and shouting at each other*”.

3.16 **Digwyddiad 2**

Tua chwe wythnos cyn marwolaeth Oedolyn A, cyfarfu Tyst 3 a Thyst 4 ag Oedolyn A, a oedd wedi cynhyrfu. Pan ofynnwyd beth oedd yn bod, dywedodd Oedolyn A fod Oedolyn B wedi ceisio'i thagu, “*he had locked his arms around her neck and pulled them tight together.*” Yn dilyn y digwyddiad hwn, roedd Oedolyn B wedi smalio wrth Oedolyn A mai tynnu coes oedd ef.

3.18 Fe wnaeth Tyst 3 gynghori Oedolyn A i ddod â'r berthynas i ben a gwnaeth Oedolyn A hynny; fodd bynnag, fe wnaeth hi aildddechrau'r berthynas ar ôl ychydig ddyddiau.

3.19 **Digwyddiad 3**

Rywbryd cyn ei marwolaeth, aeth Oedolyn A i aros yng nghyfeiriad Tyst 5 am ei bod wedi cweryla â Pherthynas 1. Yn ystod yr arhosiad hwnnw, dywedodd Oedolyn A wrthi bod Oedolyn B yn yfwr, ei fod yn yfed bob dydd ac yn cymryd cyffuriau a'i fod wedi ceisio'i thagu hi.

3.20 Ar 22 Ebrill 2014, ffoniodd Oedolyn A Heddlu Gwent i'w chynorthwyo i gael gafael ar eiddo a oedd yng nghyfeiriad Tyst 5. Dywedwyd wrth yr heddlu fod Oedolyn A wedi aros am ddwy noson, ar 18 ac 19 Ebrill 2014.

3.21 **Digwyddiad 4**

Mae Tyst 6 yn ffrind i Oedolyn A, ac er nad oedd ef wedi'i gweld hi ers tro, roedden nhw'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd drwy Facebook. Mewn neges, dywedodd Oedolyn A wrth Dyst 6 ei bod wedi gorffen â'i chariad [Oedolyn B], gan ei ddisgrifio fel “*complete and utter twat.*” Pan ofynnodd ef pam, atebodd Oedolyn A fod Oedolyn B wedi ceisio'i thagu. Dyddiad hyn oedd 7 Ebrill 2014. Ar 14 Ebrill, anfonodd Oedolyn A neges at Dyst 6 yn dweud wrtho ei bod hi mewn perthynas unwaith eto ag Oedolyn B.

3.22 Mae'n ymddangos bod hyn yn cyd-daro â digwyddiad 2 ac, felly, mae'n gosod y dyddiad hwnnw oddeutu 7 Ebrill, ychydig llai na mis cyn i Oedolyn B ladd Oedolyn A.

3.23 **Digwyddiad 5**

Roedd Tyst 7 yn adnabod Oedolyn A, ond nid Oedolyn B, ac roeddent yn cadw mewn cysylltiad drwy Facebook. Derbyniodd Tyst 7 neges gan Oedolyn A yn gofyn beth fyddai hi'n ei wneud pe bai ei chariad yn ceisio'i thagu. Ymatebodd Tyst 7 y byddai'n flin ac yn ddig. Ymatebodd Oedolyn A gan ddweud wrthi fod ei chyn-gariad (Oedolyn B) wedi ceisio'i thagu. Ymddengys fod hyn eto'n cyd-daro â digwyddiad 2.

3.24 Byddai Digwyddiad 2 hefyd yn cyd-daro â'r adroddiad a wnaed i'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol ar 8 Ebrill 2014. Os yr un digwyddiad yw Digwyddiadau 2,3,4,5 a 6, yn ôl pob golwg, mae Digwyddiad 1 yn enghraifft arall ar wahân o dagu.

3.25 **Digwyddiadau blaenorol rhwng Oedolyn B ac Oedolyn C**

Roedd Oedolyn C mewn perthynas ag Oedolyn B am 10 mis, o Chwefror 2010 tan fis Tachwedd 2010. Yn ystod y berthynas, ymadawodd tad Oedolyn B â mam Oedolyn B a dechrau perthynas â mam Oedolyn C.

3.27 Roedd Oedolyn C yn byw gyda'i baban ifanc o berthynas flaenorol ac ymhen ychydig fisoedd ar ôl i'r berthynas ddechrau gydag Oedolyn B, symudodd ef ati.

3.28 Dywedodd fod Oedolyn B yn yfed alcohol bob dydd a chofiodd un digwyddiad pan oedd ef wedi bod yn ysgrifennu geiriau rap am gyn-gariad. Nid oedd Oedolyn C yn hoff o gael ei chymharu â'r cyn-gariad a chododd hi i adael yr ystafell. Taflodd Oedolyn B '*wydr peint*' ati, a bu'r gwydr o fewn truch blewyn i'w tharo. Yna, aeth tuag ati a rhoi ei ddwylo o amgylch ei gwddf, gan ei dal am rhwng 30 a 60 eiliad. Roedd Oedolyn B yn sgrechian ati ac roedd Oedolyn C yn sgrechian i gael ei rhyddhau. Dihunodd baban Oedolyn C ac fe wnaeth Oedolyn B ei rhyddhau i fynd i nôl y baban.

3.29 Hefyd, disgrifiodd Oedolyn C y digwyddiad ar 20 Tachwedd 2010, pan gyfarfu Oedolyn B â'i dad a mam Oedolyn C; nid oedd hi wedi bod yn dyst i'r hyn ddigwyddodd, ond roedd hi'n ymwybodol bod rhywbeth wedi digwydd. Pan ddychwelodd Oedolyn B i gyfeiriad C, roeddent wedi dadlau a phan aeth hi i'r gwely, dywedodd ef rywbeth fel '*sweet dreams*.' Roedd ei ffordd o siarad â hi a'i ymarweddiad wedi gwneud iddi hi deimlo'n anesmwyth ac roedd hi'n poeni am ei diogelwch, felly aeth hi i aros gyda'i thad. Daeth i'r amlwg yn ddiweddarach fod Oedolyn B wedi 'difetha' ei fflat a'i fod wedi cael ei arestio, yn dweud ei fod wedi lladd Oedolyn C a'i 'thorri'n ddarnau'. Daeth y berthynas i ben ar ôl y digwyddiad hwn.

## 4 Dadansoddiad o'r ymwneud

Yn yr adran hon, caiff ymarfer ei ddadansoddi a'i werthuso yn ôl polisïau a gweithdrefnau, drwy'r adolygiadau o reolaeth fewnol. Gwneir dadansoddiad pellach yn yr adran nesaf, yn ateb cwestiynau'r Cylch Gorchwyl yn uniongyrchol.

### 4.1 Heddlu Gwent

Bach iawn o ymwneud bu gan Heddlu Gwent ag Oedolyn A (y dioddefwr) ac Oedolyn B (y cyflawnwr).

- 4.3 Yn 2004, bu Oedolyn B yn dyst i ddamwain draffig angheuol a rhoddodd gymorth i'r dioddefwr. Yn ôl ei fam, cafodd hyn effaith emosiynol arno, ond ni chafwyd mwy o fanylion. Yn ystod ei gyfweiliad ynghylch llofruddiaeth Oedolyn A, cyfeiriodd drachefn at y ffaith fod y digwyddiad hwn yn rhoi *'meddyliau tywyll'* iddo. Nid ystyriwyd fod hyn yn berthnasol yn ystod ei achos llys na chan y seiciatrydd a welodd ef yn ystod proses yr achos llys. Yn ystod ei grynhoi, meddai'r Barnwr Cox: *"Beyond the explanation that you lost it, no good reason has been given for this horrific attack."*
- 4.4 Ym mis Tachwedd 2010, bu digwyddiad gyda chynbartner (Oedolyn C) pan gafodd Oedolyn B ddadl â'i dad a phartner ei dad (mam Oedolyn C), a arweiniodd ato'n ymosod ar ei dad a'i bartner (roedd ei dad wedi gadael mam Oedolyn B a dechrau perthynas â mam Oedolyn C).
- 4.5 Yn dilyn yr ymosodiad, roedd wedi dychwelyd i fflat Oedolyn C a dechrau 'ymddwyn yn rhyfedd iawn tuag ati', i'r fath raddau nes y gadawodd hi'r fflat yn poeni am ei diogelwch.
- 4.6 Ar ôl i Oedolyn C adael y fflat, aeth Oedolyn B â chyllell ac fe'i gwelwyd yn yr ardal yn datgan ei fod 'wedi trywanu a thorri'i gariad yn ddarnau.' Fe wnaeth aelodau'r cyhoedd atal Oedolyn B a chafodd ei arestio'n ddiweddarach gan yr heddlu. Darganfuwyd Oedolyn C yn ddiogel wedyn, er bod Oedolyn B wedi 'difetha ei fflat'.
- 4.7 Fe wnaeth Heddlu Gwent ymdrin yn briodol â'r digwyddiad hwn. Cafodd Oedolyn B ei arestio a'i ddedfrydu yn y llys am ei weithredoedd. Roedd y digwyddiad hwn 3 blynedd a hanner cyn marwolaeth Oedolyn A ac ni ellid bod wedi'i adnabod yn ddigwyddiad a oedd yn rhagflaenydd arwyddocaol o'i marwolaeth.
- 4.8 Ym mis Ionawr 2011, gwnaed adroddiad bod Oedolyn A ar goll, ond dychwelodd hi ychydig oriau'n ddiweddarach yn ddiogel. Ymdriniwyd â'r digwyddiad hwn yn briodol ac nid yw'n berthnasol i drais/gamdriniaeth ddomestig na marwolaeth Oedolyn A.
- 4.9 Ym Mawrth 2013, aeth Oedolyn A ati i erfyn ar gar yr heddlu i stopio er mwyn cael lifft adref ar ôl iddi hi fynd ar goll yng Nghwmbrân. Yn ôl Perthynas 1, roedd Oedolyn A wedi colli'r bws olaf adref ac roedd hi'n ceisio cyrraedd adref pan ddaeth car yr heddlu o hyd iddi hi a rhoi lifft iddi. Nid yw'r digwyddiad hwn i'w weld yn adolygiad yr heddlu o reolaeth fewnol ac mae'n bosibl na chofnodwyd y digwyddiad yn systemau'r heddlu; fodd bynnag, dylai cynorthwyo menyw ifanc ar ei phen ei hun o dan yr amgylchiadau gael ei ystyried yn arfer da.

- 4.10 Cafodd Heddlu Gwent eu galw i gynorthwyo Oedolyn A i gasglu ei heiddo o dŷ ffrind (Tyst 5). Nid yw hwn yn adolygiad Heddlu Gwent o reolaeth fewnol, ond ni chaiff ei ystyried yn berthnasol i farwolaeth Oedolyn A nac unrhyw un o'r amgylchiadau cysylltiedig.
- 4.11 Nid oedd Heddlu Gwent yn gysylltiedig ag unrhyw ddigwyddiad arall. Nid oedd ganddynt unrhyw wybodaeth i'w rhannu a phe bai'r asiantaethau eraill wedi rhannu gwybodaeth â nhw, byddai eu diffyg ymwneud yn golygu y byddai'n cael bach iawn o ddyllanwad ar unrhyw ganlyniad na'u gweithredoedd.

4.12 **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB)**

Roedd ABUHB yn ymwneud ag Oedolyn A a'i theulu o oed cynnar. Yn 2010, fe wnaeth Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol gynorthwyo Oedolyn A a'i theulu oherwydd diagnosis Oedolyn A o Anabledd Dysgu, Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwytio, ac Awtistiaeth. Fe wnaeth yr un Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol ei chynorthwyo hi o'r dyddiad hwnnw tan ddyddiad ei marwolaeth. Dylid ystyried hyn yn arfer da, sef rhoi parhad gwybodaeth a sicrwydd i'r teulu.

- 4.13 Yn ystod ymweliad â'r cartref ar 20 Mawrth 2013, adroddwyd bod Heddlu Gwent wedi dod ag Oedolyn A adref ar ôl bod ar goll yng Nghwmbrân. Cafodd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol drafodaeth ag Oedolyn A ynghylch ei diogelwch personol. Nid oedd unrhyw arwydd o gwbl o unrhyw gam-drin na thrais domestig ac roedd hwn yn ddigwyddiad un-tro, yn ôl pob golwg.

Wrth siarad â'r teulu, esboniodd Perthynas 1 fod Oedolyn A wedi colli'r bws olaf a'i bod wedi dechrau cerdded adref pan wnaeth yr heddlu ei stopio a rhoi lifft adref iddi. Gwnaed sylw ar hyn yn adran yr adroddiad hwn ar Heddlu Gwent.

- 4.14 Yn ystod mis Ebrill 2013, bu nifer o ymweliadau â'r cartref gan y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol. Fe wnaeth hi drafod strategaethau i reoli ymddygiad ac ymddygiad ymosodol a chydymffurfio â chymryd meddyginiaeth, gan na fyddai Oedolyn A yn cymryd ei meddyginiaeth ambell waith. Roedd Oedolyn A yn cydnabod bod ei hymddygiad yn gwella pan fyddai'n cymryd meddyginiaeth a chytunodd i'w chymryd yn fwy aml.

- 4.15 Yn ystod ymweliad â'r cartref ar 22 Mai 2013, nodwyd bod Oedolyn A yn peri risg i'w hunan drwy aros allan yn y nos, yfed alcohol, a oedd yn effeithio ar effeithiolrwydd ei meddyginiaeth, a gwario gormod o arian; ymddengys mai ecsbloetiaeth ariannol gan ffrindiau oedd hyn. Cafwyd trafodaeth hir am ei diogelwch personol a strategaethau i'w defnyddio i ymdopi â sefyllfaoedd ac o ble i gael help. Ar yr adeg hon, roedd pryderon yn parhau ynghylch ufudd-dod Oedolyn A i gymryd ei meddyginiaeth. Ni fu datgeliad o gam-drin domestig gwirioneddol na phosibl ar yr adeg hon. Ystyriodd y panel p'un a oedd y nyrs wedi methu gwybodaeth, ond nid oedd y panel o'r farn ei bod wedi gwneud hynny. Mae'r panel yn cydnabod yr heriau i weithiwr proffesiynol ac ôl-ddoethineb yn sgil gwybod bod Oedolyn A wedi'i llofruddio. Fodd bynnag, dylai'r dysgu o'r adolygiadau ddyllanwadu ar ymarfer ac mae'n bwysig bod pob trywydd yn cael ei ystyried, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â cham-drin domestig.

- 4.16 Ar 5 Mai 2013, fe wnaeth Oedolyn A gymryd rhan mewn sesiwn ymgynghori â'r teulu; cafodd hi'r sesiwn hon yn fuddiol. [REDACTED]
- 4.17 Ar 19 Gorffennaf 2013, cafodd Asesiad Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN) ei gwblhau a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith.

*Asesiad WARRN:*

*Mae'r strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yng Nghymru yn argymhell "Dylai asesiad strwythuredig o risg fod wedi'i ysgrifennu yng nghofnodion achos pob defnyddiwr sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl"*

*Mae hwn yn asesiad ysgrifenedig ffurfiol o anghenion unigolion a theuluoedd; cynhelir yr asesiad hwn yn flynyddol.*

- 4.18 Yn dilyn yr asesiad, y Crynodeb o Sefydlu Risgiau ar gyfer Oedolyn A oedd:

*"Mae [Oedolyn A] mewn perygl o gael ei hecsbloetio oherwydd ei bod yn agored i niwed. Mae'n gallu deall y risgiau a'r camau y mae eu hangen i'w chadw ei hun yn ddiogel. Mae gan [Oedolyn A] berthynas dda â'i [Perthynas 1] a deialog agored. Mae hi hefyd yn gallu cyfleu ei phryderon i'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol.*

*Y cynllun gweithredu:*

- 1. Bydd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol yn rhoi gwybodaeth i [Oedolyn A] am ddiogelwch personol*
- 2. Bydd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol yn rhoi gwybodaeth i [Oedolyn A] am strategaethau hunan-dawelu*
- 3. Bydd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol yn rhoi gwybodaeth i [Oedolyn A] am reoli dicter, gan gynnwys cyngor ar yr hyn a allai ddigwydd pe bai hi'n ymosod ar rywun yn gorfforol*
- 4. Bydd [Oedolyn A] a'i theulu'n parhau i fynychu sesiynau therapi i'r teulu*
- 5. Bydd [Oedolyn A] yn cael ei hannog i gymryd ei meddyginiaeth yn unol â'r presgripsiwn*

- 4.19 Yn ystod ymweliad ymgynghori â'r teulu ar 9 Awst 2013, datgelodd Oedolyn A ei bod hi'n teimlo dan straen [REDACTED]
- 4.20 Ar 15 Hydref 2013, yn ystod ymweliad â'r ymgynghorydd yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, trafodwyd meddyginiaeth arall i gynorthwyo Oedolyn A gan ei bod wedi rhoi'r gorau i gymryd y feddyginiaeth a roddwyd iddi ar bresgripsiwn, a dywedodd Oedolyn A "nad oedd hi'n ymddangos yn rhy ddrwg." Y bwriad oedd i'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol fonitro Oedolyn A.



- 4.21 Yn ystod ymweliad â'r cartref ar 27 Ionawr 2014, roedd pryderon am ddiogelwch Oedolyn A yn parhau oherwydd ei bod yn aros allan yn y nos, yn ymladd ac yn yfed. Trafodwyd atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cymdeithasol, ond roedd Oedolyn A yn anfodlon. Yn adolygiad Cyngor Dinas Casnewydd o reolaeth fewnol, cofnodir y canlynol am Oedolyn A *“does not appear to want to address the issues Community Learning Disability Nurse trying to work with [Adult A] to reduce harm and maintain personal safety.”* Ystyriodd y panel yr un pwynt (4.15) ynghylch myfyrio ar ymarfer ac mae'n cydnabod yr oedd hyn yn gyfle i ganfod unrhyw wybodaeth a fyddai wedi amlygu cam-drin domestig.
- 4.22 Ar 18 Chwefror 2014, datgelodd Oedolyn A i'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol fod ganddi gariad newydd (Oedolyn B) a phwysleisiodd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol bwysigrwydd diogelwch personol.

Nid oes unrhyw beth yn y cofnodion sy'n rhoi manylion am Oedolyn B. Mae diogelwch personol Oedolyn A a'i gallu i wneud penderfyniadau da wedi dod o dan amheuaeth yn ystod y misoedd blaenorol ac nid oes cofnod o bwy yw'r 'cariad newydd'. Roedd y diffyg gwybodaeth hwn yn golygu nad oedd enw Oedolyn B yn hysbys ac, felly, nid oedd asesiad llawn o risg ar gael. Pe bai ei enw wedi bod yn hysbys, gellid bod wedi cymryd camau pellach, gan gynnwys rhoi gwybod i Heddlu Gwent a/neu wasanaethau arbenigol er mwyn cefnogi Oedolyn A. Byddai hyn hefyd wedi gallu cynnwys rhoi gwybod i Oedolyn A am ymddygiad a hanes perthnasoedd Oedolyn B o dan 'Gyfraith Claire'. Fodd bynnag, cydnabuwyd a chofnodwyd fod y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol wedi asesu bod gan Oedolyn A alluedd yn y meysydd hyn ac, felly, roedd gan Oedolyn A ymreolaeth er ei bod hi hefyd yn fenyw ifanc agored i niwed.

Hefyd, mae'r adolygiad yn cydnabod y bu, o bosibl, gyfle i drafod gydag Oedolyn A gam-drin domestig posibl. Roedd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol wedi ymgymryd â gwaith i helpu Oedolyn A i'w chadw'i hun yn ddiogel ac, ar y pryd hwn, nid oedd Oedolyn A wedi rhannu gwybodaeth am gam-drin domestig.

- 4.23 Yn ystod ymweliad â'r cartref ar 7 Mawrth 2014, trafodwyd nifer o faterion, gan gynnwys y cynnydd o ran faint o alcohol roedd hi'n ei yfed a'i bod hi'n rhoi arian i ffwrdd. Cafodd 'galluedd' Oedolyn A ei asesu a rhoddwyd cyngor ar reoli ei diogelwch personol. Nid oes unrhyw beth wedi'i gofnodi a fyddai'n awgrymu y bu unrhyw drafodaeth am y cariad newydd.
- 4.24 Yn ystod ymweliad â'r cartref ar 8 Ebrill 2014, cododd Perthynas 1 bryderon bod Oedolyn A wedi'i thagu gan Oedolyn B. Yng nghofnod clinigol ABUHB, cofnodir bod Oedolyn A yn *“presenting today as loud and aggressive said did not want to go to police that she had hit him first denied any other physical incidents.”*

Ar yr adeg hon, fe wnaeth y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol asesu bod angen atgyfeirio'r pryderon i POVA er nad oedd Oedolyn A yn cydsynio i hyn; dylid ystyried hyn yn gam gweithredu cadarnhaol ac yn arfer da.

Fe wnaeth y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol adnabod yr ymddygiadau

camdriniol yn ystod yr ymweliad hwn a chwblhau atgyfeiriad POVA.

Nid oes unrhyw beth yn awgrymu yr holwyd am hunaniaeth y 'cariad newydd' ac, felly, roedd unrhyw asesiad risg yn seiliedig ar atebion Oedolyn A. Cydnabyddir hefyd y gallai rhai dioddefwyr hepgor manylion penodol neu ddigwyddiadau cyfan. Dangoswyd bod hyn yn cynyddu wrth drafod digwyddiadau â ffrindiau a theuluoedd ac y gwneir yn llai fyth o ddigwyddiadau wrth drafod â gweithwyr proffesiynol.

Mae'n hysbys bod dioddefwyr yn datgelu dipyn wrth dipyn – gan ddatgelu'n llawnach wrth iddynt fagu ffydd a hyder, gan ddibynnu weithiau ar bw y byddant yn siarad â nhw, felly mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o effaith gwneud yn fach o rywbeth ac yn defnyddio chwilfrydedd proffesiynol o fewn y broses asesu risg, yn hytrach na gorddibynnu ar ddull seiliedig ar holiadur, sy'n creu rhwystrau rhag datgelu.

Ar ôl cwblhau POVA, fe wnaeth y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol adolygu asesiad risg WARRN Oedolyn A.

Byddai'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol wedi ystyried mai atgyfeiriad POVA fyddai'r llwybr ar gyfer amlygu pryderon yn gysylltiedig ag oedolyn agored i niwed, yng nghyd-destun digwyddiad cam-drin domestig. Ystyrir mai hon yw'r broses ar gyfer ystyried pob math o gam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig. Y gwasanaethau cymdeithasol yw'r brif asiantaeth ar gyfer ymchwilio i'r pryderon a godir mewn atgyfeiriad POVA yn y gymuned.

Nid yw'n glir beth yw'r berthynas rhwng atgyfeiriad POVA ac asesiad risg DASH.

Asesiad risg cam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail anrhydedd (DASH) yw'r model a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer asesu risg. Mae'n rhestr wirio gyffredin ar gyfer pob asiantaeth ac mae wedi'i llunio'n benodol ar gyfer trais a chamdriniaeth ddomestig.

Diben asesiad risg trais domestig yw

- *Helpu ymarferwyr llinell flaen i adnabod achosion risg uchel o gam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail 'anrhydedd'.*
- *Penderfynu pa achosion y dylid eu hatgyfeirio i Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg a pha gymorth arall y gallai fod ei angen. Daw ffurflen wedi'i llenwi yn gofnod gweithredol y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol i reoli'r achos.*
- *Cynnig adnodd cyffredin i asiantaethau sy'n rhan o broses y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg a chynnig dealltwriaeth ar y cyd o risg yn gysylltiedig â cham-drin domestig, stelcian a thrais ar sail 'anrhydedd'*

- 4.25 Yn ystod yr ymweliad olaf â'r cartref cyn marwolaeth Oedolyn A, ceisiodd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol unwaith eto i fynd i'r afael â symptomau 'gorfywiogrwydd' Oedolyn A; gwadodd Oedolyn A ei bod yn camddefnyddio cyffuriau o gwbl a threfnwyd sesiwn therapi arall i'r teulu.

Ni chofnodwyd unrhyw beth yn ystod yr ymweliad hwn a fyddai'n awgrymu bod

unrhyw gwestiynau wedi'u gofyn am yr ymweliad blaenorol a'r ymddygiadau a ddangosodd Oedolyn B tuag at Oedolyn A; a bod yn ddoeth ar ôl y digwyddiad, gellir ystyried bod hyn yn gyfle coll.

#### 4.26 **Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaethau Oedolion**

Prin fu ymwneud Gwasanaethau Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd ag Oedolyn A ac maent wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol â hi ar un achlysur yn unig.

- 4.27 Cyn dyddiadau'r adolygiad, mae ganddynt ddau gofnod; dyddiad y cyntaf yw 24 Hydref 2012, sy'n cyfeirio at negeseuon e-bost oddi wrth y Nyrs Anableddau Dysgu Cymunedol ABUHB at weithiwr cymdeithasol o'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol cymunedol.

Mae'r e-bost yn cyfeirio'n benodol at gymhwysedd Oedolyn A. Mae'n datgan bod Oedolyn A *"presents as very able. She is able to use public transport independently and stayed home with her boyfriend (Not Adult B) whilst her grandparents went on holiday. During Transitional Summer Scheme Adult A was the most able person in the group..."*

Yn ogystal, rhoddodd y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol wybod i'r gweithiwr cymdeithasol fod ymgynghorydd Oedolyn A wedi rhoi diagnosis o Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig i Oedolyn A a bod Oedolyn A yn ymglyfwyno fel petai'n fwy abl nag yw hi.

Yn ogystal, mae'r e-bost yn cyfeirio at adroddiad seicoleg addysg, dyddiedig 2002, sy'n rhoi gwybodaeth am allu gweithredol Oedolyn A ynghyd â nodyn eglurhaol gan y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol yn dweud: *"possibly if it was repeated it may go up a little but she thinks her (Oedolyn A) presentation masks her functioning at times."*

- 4.28 Cafwyd yr ail gyswllt cofnodedig ag Oedolyn A pan gynhaliwyd ymweliad asesu unedig ar 6 Chwefror 2013 gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol yng nghyfeiriad Oedolyn A; roedd Perthynas 1 yn bresennol trwy gydol yr ymweliad hwn.

Yng nghofnodion yr adolygiad o reolaeth fewnol (Gwasanaethau Cymdeithasol), cofnodir fod Oedolyn A wedi chwarae rhan lawn a dywedir y canlynol amdani: *"does not have a Learning Disability and does not meet the criteria for Community Adult Learning Disability Team."*

Cwblhawyd yr asesiad unedig a daeth i'r casgliad canlynol am Oedolyn A: *"does not have any eligible assessed needs for Adult Social Services, Newport City Council to meet."*

Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys cyfeiriad ynghylch p'un a oedd angen cymorth/cefnogaeth ar Oedolyn A i fyw'n annibynnol yn y gymuned ai peidio. Cafodd hyn ei asesu a daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen cymorth na chefnogaeth arni'r pryd hwnnw.

- 4.29 Ar 9 Ebrill 2014, cafodd y Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed atgyfeiriad POVA, wedi'i gyflwyno gan y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol. Yn yr atgyfeiriad, roedd cyfeiriad at fam Oedolyn A (Perthynas 3) yn rhoi gwybod i'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol fod cariad (Oedolyn B) Oedolyn A wedi gwneud y canlynl:

*“Attempted to strangle her and she had been afraid. Date unknown. Victim denied this was a serious incident and when asked why she was frightened she would not say.”*

- 4.30 Ar 10 Ebrill 2014, yn sgil derbyn yr atgyfeiriad, cysylltodd y Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed â'r Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol i drafod cynnwys yr atgyfeiriad.

Mae'r adolygiad o reolaeth fewnol yn datgan:

*“Discussed salient points. Agreed that no significant harm had occurred therefore POVA threshold not met. Given this and lack of consent POVA was closed. [Adult A] had capacity according to Community Learning Disability Nurse remained involved.”*

Fel nodyn eglurhaol, mae'r adolygiad o reolaeth fewnol yn datgan hefyd:

*“Wales Interim Policy & Procedures for the protection of Vulnerable Adults from Abuse applied. Initial Evaluation undertaken. The purpose of this is to determine if the referral is likely to meet the threshold for significant harm under the Wales Protection Policy. POVA risk rating completed as per All Wales Policy. According to referral the victim did not wish to make complaint, stated that action had been playful. No injuries sustained, no medical attention required, no lasting distress. POVA threshold not met, noted need for care management support.”*

- 4.31 Nid yw'n ymddangos bod 'Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru' ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin wedi'i weithredu'n llawn gan fod y polisi yn glir bod:

Tudalen 23: “Os yw'n ymddangos bod yr oedolyn diamddiffyn yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ac nid yw am unrhyw weithredu nac ymyriad, dylid parchu ei ddymuniad, **oni bai**:

- *bod dyletswydd statudol i ymyrryd (e.e. efallai y cyflawnwyd trosedd neu mae'n bosib y bydd hynny'n digwydd);*  
(mae ymgais i dagu yn drosedd a'r heddlu 'yn unig' a all benderfynu fel arall)
- *amheuir y gall yr oedolyn diamddiffyn fod o dan ddylanwad gormodol rhywun arall.*  
(Nid oedd hyn yn hysbys ar y pryd, er yr ymddengys o'r adolygiad ei bod hi)

Hefyd, mae 6.3.1 ar dudalen 23 y polisi'n datgan: “*ni ddylid derbyn cydsyniad ar ei*

*olwg gan fod angen amddiffyniad ar rai oedolion diamddiffyn rhag camddefnydd emosiynol ac ecsbloetiaeth.”*

Tudalen 26. 6.4.1 Os na fu cam-drin ond mae'n debygol y bydd cam-drin, neu os yw'r dioddefwr wedi cael ei gam-drin ond ni chafwyd niwed sylweddol, gellir defnyddio gweithdrefnau amddiffyn oedolion. Rhaid barnu pob sefyllfa yn ôl ei haeddiant a **rhaid** i'r farn hon ystyried ymagweddau gwahanol megis:

Gweithredu gan yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf e.e. cynnwys gwybodaeth ar gronfa ddata a/neu gyfeirio i Drefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPa) neu Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC).”

Ymddengys hefyd fod y broses hon yn gwrth-ddweud gweithdrefnau Cyngor Dinas Casnewydd yn uniongyrchol, sy'n datgan ar eu gwefan:

<http://www.newport.gov.uk/en/Care-Support/Protection-of-vulnerable-adults.aspx>

*Mae amddiffyn oedolion agored i niwed (POVA) yn ymwneud ag amddiffyn rhywun 18 oed ac yn hŷn sydd angen help â thasgau bywyd pob dydd, efallai person ag anableddau, sy'n dioddef salwch meddwl neu berson hŷn bregus.*

Ac mae'n cynnwys

**Cam-drin domestig** – *cam-drin mewn perthynas ddomestig yn unig, tra bod amddiffyn oedolion yn cynnwys cam-drin mewn perthynas broffesiynol ac mae'n ymwneud yn benodol ag oedolion agored i niwed.*

Mae'n datgan yn y broses hefyd fod

*Honiadau o gamdriniaeth yn cael eu trin o ddifrif ac yn gwbl gyfrinachol o fewn terfynau'r gyfraith, sy'n gofyn am roi gwybod i'r heddlu lle y bo perygl i fywyd, neu lle y caiff gwybodaeth am drosedd ei darganfod.*

Nid yw'r sylwadau a wnaed yn y nodiadau eglurhaol yn cefnogi'r datganiad hwn.

- 4.32 Mae'r dogfennau eglurhaol ar y wefan yn rhoi manylion ynghylch beth yw oedolyn agored i niwed a beth yw camdriniaeth, sef “*taro, gwrthio, pinsio, ysgwyd, defnyddio gormod o feddyginiaeth neu atal rhywun rhag cymryd ei feddyginiaeth.*”

[http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/leaflets\\_and\\_brochures/cont726035.pdf](http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/leaflets_and_brochures/cont726035.pdf)

*Y diffiniad o oedolyn agored i niwed yw: “Person sy'n 18 oed ac yn hŷn a all fod angen gwasanaethau gofalu cymunedol am resymau anabledd meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch, sy'n methu neu a allai fod yn methu â gofalu amdano'i hun, neu'n methu amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetiaeth difrifol.”*

- 4.33 Roedd Oedolyn A yn cyfateb i'r diffiniad o oedolyn agored i niwed fel y'i nodir uchod a cham-drin corfforol oedd gweithredoedd Oedolyn B, felly dylai Oedolyn A fod wedi cael ei hystyried yn unol â'r arweiniad.

- 4.34 Mae'r wybodaeth yn nodyn eglurhaol yr adolygiad o reolaeth fewnol yn gwrth-

ddweud arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd.

- 4.35 Roedd gwybodaeth bod Oedolyn A wedi cael ei thagu ac mae hon yn wybodaeth am drosedd. Mater i'r heddlu yw ymchwilio i b'un a ddigwyddodd trosedd mewn gwirionedd ai peidio.
- 4.36 Pe bai'r ymchwiliad hwn wedi'i gynnal, byddent wedi amlygu bod Oedolyn B wedi tagu ei bartner blaenorol (Oedolyn C) a gallai'r heddlu a'r tîm oedolion agored i niwed fod wedi cymryd unrhyw gamau gweithredu priodol. Dylid ystyried mai cyfle oedd hwn a gollwyd, er na ellir canfod a fyddai hyn wedi atal marwolaeth Oedolyn A.

## **5 Mynd i'r afael â'r cylch gorchwyl**

- 5.1 P'un a oedd y digwyddiad y bu farw Oedolyn A ynddo yn ddigwyddiad 'un tro' neu a oedd unrhyw arwyddion rhybudd a ph'un a ellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddiodefwrwr trais domestig.

- Nid digwyddiad un tro oedd y digwyddiad y bu Oedolyn A farw ynddo. Bu un digwyddiad blaenorol y gwyddent amdano, a ddigwyddodd yn ddiweddar iawn. Gwyddai ffrindiau'r wybodaeth hon a bu'r panel yn ystyried yn hir sut y gallent hwyluso datgeliadau gan ffrindiau o'r fath. Roedd Oedolyn B wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau eraill tua phedair blynedd ynghynt, a oedd yr un peth o ran tagu a'r honiad fod Oedolyn B wedi trywanu Oedolyn C.
- Yn ôl pob golwg, nid yw'r defnydd ar broses POVA yn eglur ac mae'n ymddangos bod cyfleoedd i asiantaethau ddehongli'r amgylchiadau.

- 5.2 P'un a oedd Oedolyn A neu deulu / ffrindiau / cydweithwyr wedi wynebu unrhyw rwystrau rhag rhoi gwybod am unrhyw gam-drin yng Nghasnewydd neu rywle arall, gan gynnwys p'un a oeddent yn gwybod sut i roi gwybod am gam-drin domestig pe bai hi wedi bod eisiau gwneud.

- Nid yw'n ymddangos bod Oedolyn A wedi wynebu unrhyw rwystrau gwirioneddol rhag rhoi gwybod am gamdriniaeth. Ar yr un achlysur pan roddodd wybod amdano, roedd gweithwyr iechyd proffesiynol wedi gwneud atgyfeiriad POVA yn groes i'w dymuniadau; dylid ystyried hyn yn arfer da.
- Roedd y panel yn cydnabod heriau ac anawsterau rhoi gwybod am gam-drin domestig a bod y rhain yn fwy oherwydd anabledau Oedolyn A. Yn ogystal, ystyriodd y panel sut gallai'r heriau a'r rwystrau dilynol rhag adrodd gael eu lleihau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei datgan mewn modd y gallai pawb ei deall yn glir. Hefyd, roedd hi'n bwysig bod staff yn ymwybodol o'r heriau hyn hefyd ac yn gweithredu'n briodol, lle bynnag y bo angen, trwy ystyried sefyllfa bersonol pawb a'u gallu i werthfawrogi a deall y peryglon posibl yr oeddent ynddynt. Trafododd y panel yr angen am gydnabod y gallai pobl agored i niwed gael eu cam-drin.
- Codwyd camdriniaeth a thrais domestig gyda ffrindiau Oedolyn A; ni

roddwyd gwybod am y rhain. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn glir ac mae'n bosibl iddynt ddewis peidio â rhoi gwybod amdanynt, neu nid oeddent am fod yn gysylltiedig. Mae tagu yn ffactor niwed sylweddol o fewn perthynas gamdriniol a dylai'r ffactor hwn a'r ffactorau eraill gael eu gwneud yn glir i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol fel ei gilydd.

- Roedd hi'n amlwg i'r panel fod ffrindiau a chydweithwyr yn aml yn ffynhonnell wybodaeth a chymorth, ond mae cydbwysedd rhwng cyfeillgarwch a rhoi gwybod am gamdriniaeth. Mae'n bwysig bod y dysgu'n amlygu bod y ffynonellau gwybodaeth hyn yn gyfle hanfodol i roi gwybod am gamdriniaeth yn gyfrinachol.

5.3 P'un a oedd Oedolyn A wedi cael ei cham-drin mewn perthnasoedd blaenorol yng Nghasnewydd neu rywle arall, a ph'un a oedd y profiad hwn wedi effeithio ar y tebygolrwydd y byddai'n ceisio cymorth yn ystod y misoedd cyn iddi farw.

- Nid oes unrhyw dystiolaeth o'r adolygiad nac o siarad â'r teulu fod Oedolyn A wedi cael ei cham-drin mewn perthnasoedd blaenorol.

5.4 P'un a gollwyd cyfleoedd i weithwyr proffesiynol 'wneud ymholiadau cyffredinol' ynghylch unrhyw gam-drin domestig a ddiodeffodd Oedolyn A.

- Nid oedd gweithwyr proffesiynol wedi colli unrhyw gyfleoedd, oherwydd ar yr un achlysur pan wnaed datgeliad gan Oedolyn A, roedd y gweithiwr iechyd proffesiynol wedi rhoi gwybod am y datgeliad.

5.5 P'un a oedd gan Oedolyn B unrhyw hanes blaenorol o ymddygiad camdriniol tuag at bartner clòs a ph'un a oedd unrhyw asiantaethau yn gwybod am hyn.

- Mae gan Oedolyn B hanes o ymddygiad camdriniol gydag Oedolyn C rhyw bedair blynedd ynghynt. Nid oedd hi'n hysbys pwy oedd Oedolyn B er bod Oedolyn A wedi datgelu bod ganddi gariad newydd.
- Roedd Heddlu Gwent yn ymwybodol o hanes Oedolyn B, ond ni wyddent am ei berthynas bresennol na'i fod wedi tagu Oedolyn A yn ystod y misoedd cyn ei marwolaeth.

5.6 P'un a gollwyd cyfleoedd i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig yn gysylltiedig ag Oedolyn A neu Oedolyn B.

- Ni amlygwyd unrhyw gyfleoedd yn yr adolygiad gan na fu gweithredu yn sgil atgyfeiriad POVA (gweler y sylw yn 3.9)

5.7 Dylai'r adolygiad amlygu unrhyw ofynion hyfforddiant neu godi ymwybyddiaeth y mae eu hangen i sicrhau bod gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a / neu wasanaethau cam-drin domestig yn y ddinas.

- Dylai'r ffactorau niwed sylweddol sy'n cynyddu risg trais a chamdriniaeth ddomestig i ddiodeffwyr gael eu gwneud yn glir i weithwyr proffesiynol; Tagu, defnyddio cyllyll a drylliau, beichiogrwydd, gwahanu a bygythiadau i

ladd.

- Dylai fod eglurder ynghylch asesu cam-drin domestig ar gyfer pob unigolyn, yn enwedig y rhai sy'n wynebu mwy o risg, oedolion agored i niwed.

5.8 Yn ogystal, bydd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymddangos yn berthnasol i'r dioddefwr, y cyflawnwr ac i blant dibynnol, e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a marwolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

- Bydd y mater yn ymwneud ag oedolion agored i niwed yn cael ei drafod yn nes ymlaen.

### 5.9 Ymwneud gan y teulu

Sut dylai ffrindiau, aelodau'r teulu a rhwydweithiau cymorth eraill a, lle y bo'n briodol, y cyflawnwr, gyfrannu at yr adolygiad a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hwyluso hynny?

- Anfonwyd llythyron at holl aelodau hysbys teulu Oedolyn A ac at Oedolyn B a'i fam.
- Mae tri aelod o deulu Oedolyn A wedi cymryd rhan yn yr adolygiad, sef Perthynas 1, Perthynas 2 a Pherthynas 3.
- Ysgrifennwyd at Oedolyn B a'i fam ond nid yw'r naill na'r llall wedi ymateb.

5.10 Sut dylai materion yn ymwneud â theulu a ffrindiau, y cyhoedd a'r cyfryngau gael eu rheoli cyn ac yn ystod yr adolygiad, ac wedi hynny, a phwy ddylai gymryd cyfrifoldeb amdano?

- Penderfynodd y panel y byddai Cyngor Dinas Casnewydd yn rheoli'r holl faterion yn ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebu.
- Cyhoeddir crynodeb gweithredol o'r adolygiad ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un a bydd datganiad priodol i'r wasg ar gael i ymateb i unrhyw ymholiadau. Caiff argymhellion yr adolygiad ei dosbarthu trwy wefan y bartneriaeth, grwpiau cam-drin domestig gweithredol a strategol y bartneriaeth a chânt eu cymhwyso i unrhyw gyfleoedd dysgu eraill gydag asiantaethau partner sy'n gysylltiedig ag ymateb i gam-drin domestig.



### 5.11 Prosesau Cyfreithiol

Sut bydd yr adolygiad yn cyfrif am ymchwiliad Crwner ac (os yw'n berthnasol) unrhyw ymchwiliad troseddol i'r dynladdiad, gan gynnwys ystyriaethau datgelu, i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn gallu cael ei rhannu heb achosi oedi sylweddol i'r broses adolygu na pheryglu'r broses farnwrol?

- Ni fydd cwest i farwolaeth OedolynA, yn unol â deddfwriaeth.

5.12 A oes angen i'r panel adolygu gael cyngor cyfreithiol annibynnol am unrhyw agwedd ar yr adolygiad arfaethedig?

- Ni amlygwyd unrhyw wrthdaro na materion a fyddai'n awgrymu bod angen hyn.

### 5.13 Ymchwil

Sut dylai'r broses adolygu gyfrif am wersi blaenorol a ddysgwyd o ymchwil ac adolygiadau blaenorol o ddynladdiadau domestig?

- Rydym wedi craffu ar adolygiadau blaenorol o ddynladdiadau domestig yn ystod yr adolygiad hwn i ddod o hyd i arfer gorau. Mae ymchwil wedi ymestyn i gynnwys ffynonellau academaidd, gan gynnwys: Kemshall (2013), Walby and Allen (2004); Bain (2008); Munro (2007); Nash (2010); Brandon et al (2009); Barry (2009).

Ystyriwyd dogfennau penodol hefyd

- Arweiniad Statudol Amlasiantaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer cynnal adolygiadau o ddynladdiadau domestig
- Pecyn Cymorth y Swyddfa Gartref i Awduron Adroddiadau Trosolwg ynghylch Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig
- Galwad i Derfynu Trais yn erbyn Menywod a Merched – Llywodraeth EM (Tachwedd 2010)
- *Barriers to Disclosure* – Walby ac Allen, 2004.
- Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig, y Swyddfa Gartref – Themâu cyffredin a nodwyd a gwersi a ddysgwyd – Tachwedd 2013.
- *Prevalence of intimate partner violence: findings from the WHO multi-country study on women's health and domestic violence*, 2006.
- *'If only we'd known': an exploratory study of seven intimate partner homicides in Engleshire* – Gorffennaf 2007.

### 5.14 Amrywiaeth

A oes unrhyw ystyriaethau penodol yn ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel ethnigrwydd, oedran ac anabledd, y gallai fod angen eu hystyried yn arbennig?

- Roedd gan Oedolyn A anabledd dysgu; ni amlygwyd unrhyw ystyriaethau eraill yn yr adolygiad

### 5.15 Cyfrifoldeb amlasiantaethol

A oedd Oedolyn A neu Oedolyn B yn destun Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)/Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)?

- Nid oedd Oedolyn A nac Oedolyn B yn destun MARAC na MAPPA. Nid oedd unrhyw beth yn yr adolygiad a fyddai'n awgrymu y byddai'r naill neu'r llall yn addas ar gyfer MAPPA.
- Mae'r adolygiad wedi amlygu'r cyfle i gynnal asesiad risg cam-drin domestig. Nid yw'n glir ai uchel, canolig neu isel fyddai'r categori, ond fel y trafodwyd eisoes, dyma gyfle a gollwyd ac o elwa ar wybodaeth, mae'n bosibl y byddai wedi ysgogi atgyfeiriad i Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

### 5.16 A fu gan Oedolyn A unrhyw gysylltiad â mudiad neu linell gymorth trais domestig?

- Ni fu gan Oedolyn A unrhyw gysylltiad ag asiantaeth trais domestig. Fe wnaeth y Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol adnabod trais domestig a'i atgyfeirio gan ddefnyddio proses POVA.
- Mae'r adolygiad o wasanaethau ar gyfer oedolion agored i niwed yn amlygu problem ehangach yng nghyd-destun cam-drin domestig. Argymhellir archwilio'r ddarpariaeth POVA bresennol a'i pherthynas ag asesu risg cam-drin domestig i sicrhau bod gwasanaethau ar gael a'u bod yn adnabyddadwy i'r dioddefwyr y mae arnynt eu hangen.

### 5.17 Dylid ystyried hefyd a oedd y dioddefwr neu'r cyflawnwr yn 'oedolyn agored i niwed'

- Mae rhywfaint o ddryswch yn yr adolygiad ynghylch a oedd pob asiantaeth yn ystyried bod Oedolyn A yn oedolyn agored i niwed. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei hystyried yn oedolyn agored i niwed. Cyfeiriodd Gwasanaethau Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd at Oedolyn A fel person agored i niwed ond, yng nghyd-destun Deddf Galluedd Meddyliol 2005, sef "*A person must be assumed to have capacity unless it is established that they lack capacity*", ystyriwyd bod ganddi alluedd.
- Nid yw'r diffyg eglurder yn helpu dealltwriaeth gwasanaethau ac mae angen rhywfaint o iaith gyffredin, ddiamwys, i ganfod statws unigolyn o ran bod yn agored i niwed.

- Mae'r diffiniad o oedolyn agored i niwed a gafwyd o wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn adlewyrchu'r diffiniad a gyhoeddwyd gan Adran yr Arglwydd Ganghellor yn Ymgynghoriad 1997, "Who Decides?"

*"A person who is 18 years of age or over, and who may be in need of community care services by reason of mental or other disability, age or illness and who is or may be unable to take care of themselves, or unable to protect themselves against significant harm or serious exploitation."*

5.18 A oedd unrhyw broblemau cyfathrebu, rhannu gwybodaeth neu ddarparu gwasanaeth rhwng gwasanaethau?

- Nid oedd unrhyw broblem cyfathrebu, rhannu gwybodaeth na darparu gwasanaeth gan fod yr unig ddwy asiantaeth a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Dinas Casnewydd, wedi rhannu'r wybodaeth am Oedolyn A. Ni rannwyd unrhyw wybodaeth am Oedolyn B, gan nad oedd hi'n hysbys pwy oedd ef. Ar yr adeg y daethpwyd i wybod pwy oedd ef, ni chysylltwyd â Heddlu Gwent; fodd bynnag mae'n bosibl mai rhoi'r gorau i broses POVA oedd y rheswm dros hyn.

5.19 **Cyfrifoldeb asiantaethau unigol**

A oedd y gwaith yn yr achos hwn yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau pob sefydliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles oedolion ac yn gyson â safonau proffesiynol ehangach?

- Mae'n ymddangos bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu dilyn ei bolisi ei hun ac amlygwyd hyn ym mhrif gorff yr adolygiad
- Mae argymhellion i sefydliadau archwilio'u polisiau mewnol i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dysgu o'r adolygiad hwn ac yn ei gymhwyso'n briodol

5.20 A gafodd effaith trais domestig ar y dioddefwr ei chydnabod?

- Cydnabuwyd bod Oedolyn A yn agored i niwed; nid yw'n glir a oedd hyn oherwydd ei bod hi'n oedolyn agored i niwed neu oherwydd y cam-drin domestig.
- Rhoddodd Perthynas 1 wybod i'r Cadeirydd am nifer o ddigwyddiadau sy'n arddangos cam-drin domestig. Roedd tystiolaeth glir o gam-drin ariannol gan Oedolyn B a 'ffrindiau' Oedolyn A a bod eu hymddygiad yn ei gorfodi a'i rheoli. Nid yw'r adolygiad hwn wedi gallu canfod pam nad oedd gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r digwyddiadau hyn. Amlygodd Perthynas 1 yr ymddygiadau hyn a'u rhannu gyda'r awdur, a dywedodd eu bod wedi dweud wrth y Nyrs Anabledau Dysgu Gymunedol.

5.21 A oedd camau gweithredu yn cydsynio ag asesiadau a phenderfyniadau a wnaed? A oedd gwasanaethau priodol wedi'u cynnig/darparu neu a wnaed ymholiadau

perthnasol, yn sgil asesiadau?

- Mae'r adolygiad yn gwneud sylw am hyn drwyddo draw. Gellid a dylid bod wedi gwneud ymholiadau pellach ar rai adegau, i gynnig trosolwg ehangach o'r holl broblemau yn y berthynas ac i bawb eu gwerthfawrogi.

5.22 A oedd digon o atebolrwydd gan reolwyr am benderfyniadau? A oedd uwch reolwyr neu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill ynghlwm wrth adegau yn yr achos pan ddylent fod wedi bod ynghlwm?

- Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad, roedd digon o atebolrwydd. Fodd bynnag, fel y dywedwyd, roedd diffyg gwybodaeth, penderfyniadau anghywir a methu gweithredu'n briodol ar adegau.

## 6 Gwersi i'w dysgu o'r adolygiad

6.1 Trwy gydol yr adolygiad, archwiliwyd y cwestiwn ynghylch pa mor agored i niwed oedd Oedolyn A. Er gwaethaf craffu gan yr adolygiad hwn, mae'n aneglur o hyd beth yw ei statws ac, felly, pa wasanaethau ddylai fod wedi'u cynnig.

6.2 Mae'n ymddangos bod y cwestiwn ynghylch pa mor agored i niwed oedd hi a defnyddio atgyfeiriad POVA wedi rhwystro'r asesiad o risg Oedolyn A yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Oherwydd proses atgyfeirio POVA, nid yw effaith ymddygiad oedolyn B arni hi wedi cael ei hystyried.

6.3 Nid oes amheuaeth bod Oedolyn A yn oedolyn agored i niwed; mater ar wahân yw p'un a oedd ganddi alluedd. Roedd hi hefyd yn ddiodefwr trais domestig ac er bod hyn wedi'i gydnabod yng nghyd-destun bod yn oedolyn agored i niwed, ni ystyriwyd ei fod yn broblem benodol, felly ni ddigwyddodd proses asesu risg arbenigol.

Mae'n ymddangos bod y diffyg eglurder wedi pennu ffordd o weithredu ac wedi cau llygaid gweithwyr proffesiynol. Mae'n ymddangos mai o safbwynt anabledd y canolbwyntiwyd ar ba mor agored i niwed oedd Oedolyn A ac mae'n ymddangos y bu dryswch gyda'r llwybr atgyfeirio, sy'n cael ei gydnabod yn adolygiad ABUHB o reolaeth fewnol, sy'n amlygu

*"This highlights potential confusion in respect of the referral pathway for domestic abuse as had the young woman i.e. [Adult A] not been deemed a "vulnerable adult" it is likely that a DASH would have been considered and a possible MARAC referral made."*

Pe bai asesiad risg camdriniaeth a thrais domestig wedi'i ddefnyddio, mae'n bosibl y byddai'r wybodaeth hon wedi cael ei hamlygu a/neu byddai atgyfeiriad POVA yn benodol yn y maes hwn.

6.5 Gallai defnyddio atgyfeiriad Oedolyn Agored i Niwed/POVA fod yn ddryslyd mewn achosion o drais a cham-drin domestig. Fodd bynnag, pe byddid wedi bwrw ymlaen â'r POVA, byddai'r wybodaeth am risgiau Oedolyn B wedi cael eu darganfod. Nid yw atgyfeiriad POVA wedi'i lunio'n benodol ar gyfer trais domestig ac nid yw'n asesu'r risg i'r diodefwr fel y gwna asesiad cam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail

anrhydedd (DASH). Fodd bynnag, mae asesiad risg WARRN sy'n cael ei gyflawni gan ABUHB yn sgrinio am risg trais domestig.

- 6.6 Dylai'r ddealltwriaeth o effaith trais a chamdriniaeth ddomestig, ymddygiad y cyflawnwr a'r effaith ar y dioddefwr ymhlith gweithwyr proffesiynol fod yn well.

## 7 Casgliadau

- 7.1 Nid oes unrhyw beth yn yr adolygiad sy'n dangos y gallai'r dynladdiad fod wedi cael ei argweld neu ei atal.
- 7.2 Roedd Oedolyn A yn oedolyn agored i niwed ac er bod ganddi'r galluedd i gydsynio i berthynas, gallai fod wedi'i chael hi'n anodd adnabod effaith ymddygiad Oedolyn B. Cafodd ei chefnogi'n llawn gan ei theulu, a geisiodd wneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod ganddi fywyd diogel a boddhaus.
- 7.3 Roedd dryswch yn y llwybr atgyfeirio, ond nid yw'n sicr p'un a fyddai hyn wedi cael unrhyw effaith ar y canlyniad. Fe wnaeth Oedolyn B ymosod ar Oedolyn A mewn "ymosodiad ciaidd a di-ball." Nid oedd tystiolaeth ei fod wedi defnyddio'r lefel hon o drais o'r blaen oherwydd yn yr unig ddigwyddiad blaenorol, roedd Oedolyn C wedi gadael y fflat cyn i unrhyw beth ddigwydd.
- 7.4 Mae angen cael rhywfaint o eglurder mewn prosesau a gweithdrefnau'n ymwneud â chamdriniaeth a thrais domestig yng nghyd-destun pobl agored i niwed. Dylai asiantaethau gael digon o hyblygrwydd i ddefnyddio asesiadau priodol er mwyn pennu risgiau i unigolion.

## 8 Argymhellion

Gwneir yr argymhellion canlynol:

### **Cenedlaethol (Cymru)**

- Adolygu llwybr atgyfeirio presennol Oedolion Agored i Niwed/POVA a sicrhau bod eglurder ynghylch trais a chamdriniaeth ddomestig

### **Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un**

- Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio yn glir a bod asiantaethau yn gwbl ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau
- Adolygu a diwygio unrhyw hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod y gwersi ynghylch adnabod risg yn cael eu gwneud yn glir a bod rolau a chyfrifoldebau gweithwyr yn eglur iddynt.

### **Asiantaeth unigol**

### **Heddlu Gwent**

- Cydweithio â phartneriaid ac asiantaethau i sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth yn glir ac yn briodol i'r broblem berthnasol, yn benodol, trais a chamdriniaeth ddomestig

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Adolygu a diwygio hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n ymwneud ag oedolion agored i niwed, gan godi ymwybyddiaeth o drais a chamdriniaeth ddomestig a pha gamau i'w cymryd.

- Bydd gan ABUHB brosesau clir ar waith i staff allu codi pryderon am ddiogelwch ar lefel uwch os byddant yn teimlo bod asiantaeth arall heb gymryd y camau gweithredu priodol

### **Gwasanaethau Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd**

- Dylai Tîm POVA Cyngor Dinas Casnewydd ystyried cyflwyno Polisi sy'n sicrhau, ym mhob achos lle y bydd trais domestig yn cael ei nodi, bod y wybodaeth yn cael ei rhannu'n uniongyrchol â'r heddlu neu y rhoddir gwybod iddynt yn uniongyrchol am y wybodaeth er mwyn ei hystyried.
- Gwell eglurder ar draws gwasanaethau oedolion fel y bydd lefel yr ymwneud, ymyrraeth a deilliannau posibl mae'r oedolyn yn disgwyl o'r broses, ym mhob achos, yn cael ei gwneud yn glir, p'un a yw galluedd yn cael ei dybio neu fel arall. Yna, dylai manylion o'r fath gael eu cofnodi'n glir mewn cofnodion achos a dylid troi atynt ym mhob cam o ymyrraeth yn y dyfodol. Ni ddylid ystyried mai cydymffurfio a chydweithredu yw'r unig fesur.
- Sicrhau bod Polisi Cyngor Dinas Casnewydd ar Gofnodi Cofnodion Achos a hyfforddiant staff yn cadarnhau'r angen i sicrhau'r eirfa a'r derminoleg gywir wrth bennu cymhwysedd am wasanaethau.
- Archwilio rôl arbenigwyr trydydd sector ym maes trais domestig, a chyfathrebu â nhw, yn enwedig mewn perthynas ag oedolion ag unrhyw anabledd dysgu a datblygu darpariaeth gwasanaeth i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.